tafod elái

www.tafelai.net

Tachwedd 2003 **Pris 60c** **Rhif 182**

CYCHWYN BUSNES NEWYDD

Amanda Protheroe Thomas, Danny Grehan a Roy Noble yn dathlu llwyddiant Potentia

Mae Danny Grehan, Tonyrefail wedi dechrau busnes newydd dyma sut y cychwynodd y gwaith.

Dechreuodd fy niddordeb mewn tylino (massage) flynyddoedd lawer yn ôl bellach, pan o'n i ar gwrs drama'r Urdd yn Llangrannog, ond dim ond yn ddiweddar y ces i'r hyder i fynd ar gwrs i ddysgu tylino'n iawn.

Dwy flynedd yn ôl dechreuais i ar gwrs tylino gyda Choleg Morgannwg, ond doedd gen i ddim syniad mod i'n mynd i fwynhau gymaint – na mod i'n mynd i ddysgu cymaint (cawson ni gyflwyniad i anatomi a ffisioleg oedd yn rhoi'r sylfaen i'r drefn dylino). Gwnes i hefyd gwrs sylfaenol ar dylino pen Indiaidd.

Y flwyddyn ddiwethaf wedyn gwnes gyrsiau ar aromatherapi a thylino chwaraeon, gan wneud diploma llawer iawn mwy cynhwysfawr mewn anatomi a ffisioleg. Dw i wrthi ar hyn o bryd yn gwneud cyrsiau ar adweithyddiaeth (reflexology) a chwrs uwch mewn tylino pen Indiaidd.

Roedd y syniad o ddechrau busnes o'r diddordeb wedi croesi fy meddwl sawl gwaith, ond doeddwn i ddim wedi gwneud dim byd yn ei gylch nes i mi fynd ar un o gyrsiau Menter a Busnes / Potensia oedd wedi ei drefnu gan Menter Iaith. Deffro'r Ysbryd Mentrus oedd enw'r cwrs – ac fe lwyddodd! Trefnais gyfarfod â swyddog Menter a Busnes, Branwen Daniel, a chael help a chefnogaeth ymarferol ganddi. Cefais ddylunydd i gynllunio logo a thaflenni, a help i lunio www.iechydda.com safle gwe newydd. A dyna eni Iechyd Da. Yn ddiweddar ces i fy ngwahodd i fod yn rhan o lawsniad i ddathlu agor y milfed busnes dan adain Potensia.

Dw i wrthi ar hyn o bryd yn cynyddu'r nifer o gleientiaid sydd gyda fi, felly os hoffech chi dderbyn un o'r triniaethau ymlaciol fel aromatherapi neu dylino pen Indiaidd, neu os hoffech dylinad dyfnach i gael gwared ar boenau cyhyrol, a hynny yng nghludwch eich cartref eich hun, gallwch fy ffonio i ar 07881 607723 i drefnu triniaeth.

DIOLCH O GALON

Cafodd Dawnswyr Nantgarw gyfle arbennig i ddangos eu gwerthfawrogiad o waith eu harweinyddion ar y rhaglen 'Diolch o Galon' ar S4C yn ddiweddar. Gwelwyd Eirlys Britton a Cliff Jones yn cael dipyn o sioc wrth i Gavin Ashcroft gyflwyno'r tlws iddynt yng Ngŵyl Ddawnsio Majorca.

DANFON HEN OFFERYNNAU I DDE AFFRICA

Yn dilyn ymweliad tri digybl o Ysgol Gyfun Llanhari â Ysgol Uwchradd Umqhele yn Ne Affrica cychwynwyd prosiect i gasglu adnoddau dysgu i'w cludo i'r ysgol. Mae angen yn druenus eitemau elfennol megis papur, pensiliau a phaent, yn ogystal ag offer a chyfarpar gwaith pren a gwaith metel a hefyd offerynnau cerddorol. Mae disgyblion Ysgol Gyfun Llanhari'n apelio am gymorth gan y cyhoedd i gefnogi'r fenter drwy gyfrannu hen offerynnau cerddorol segur sydd yn cuddio'n y garej, yr atig neu o dan y gwely!

Mae Mr Geoff Davies, Cyfarwyddwr Cerddoriaeth Sir Caerdydd a Bro Morgannwg wedi datgan ei gefnogaeth i'r prosiect, ac ar ddydd Gwener 3ydd Hydref cyflwynwyd amryw o hen offerynnau cerddorol i'r casgliad.

Mae Ysgol Gyfun Llanhari'n cydweithio ag elusen `School-Aid' wrth gasglu'r rhoddion a'u cludo i Dde Affrica.

Cymdeithas yr Iaith
RALI FAWR
'Dyfodol i'n Cymunedau'
Neuadd Undeb y Myfyrywr, CAERDYDDD
2pm Dydd Sadwrn Tachwedd 15fed

Siaradwyr - Alun Ffred Jones AC, Leanne Wood AC, Hywel Teifi Edwards
www.cymdeithas.com

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

LLUNIAU
D. J. Davies
01443 671327
HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 029 20842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar 5 Rhagfyr 2003
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
26 Tachwedd 2003

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.net
e-bost
pentyrch@tafelai.net

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg

Ffôn: 01792 815152

Cymunedau'n Gyntaf

Gyda chefnogaeth y Fenter Iaith mae Tafod Elái wedi derbyn cymorthdal oddi wrth Cymunedau'n Gyntaf i hybu gweithgarwch y papur bro.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT...
0845 6076070
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol
www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

CYLCH CADWGAN

8.00pm, Nos Fercher
Tachwedd 12 2003
Ysgol Creigiau.

Angharad Price yn siarad am
'O! tyn y gorchudd'
Gyda chymorth yr academi

MERCHED Y WAWR

Merched y Wawr
Cangen y Garth

Dathlu'r Nadolig yng nghwmni'r Pedwar Gwron a Kate

Nos Fercher, Rhagfyr 10fed am 8 o'r gloch yn Ysgol Creigiau
Croeso cynnes i aelodau hen a newydd

Cymdeithas Gymraeg Llantrisant

'Joseph'
yn y Theatr Newydd,
Nos Wener 14 Tachwedd

CINIO NADOLIG

yn y Tŷ Nantddu

Nos Wener 12 Rhagfyr
Manylion: 01443 218077

CLWB Y DWRLYN

Dwli'r Mochyn

Nos Fercher
26 Tachwedd
am 8.00pm
yn y Mochyn Du

Manylion: 20890040

LLANTRISANT

Cymdeithas Gymraeg
Mae'r Gymdeithas wedi cychwyn ar raglen llawn o weithgareddau y tymor newydd mewn steil a hwyl. Aeth criw i weld 'Amdani' yn y Sherman ym mis Medi a chafwyd noson arbennig o Fowlio Deg yn Nantgarw ym mis Hydref. Am fanylion y rhaglen ffoniwch 01443 218077.

Pen-blwydd Arbennig
Dymuniadau gorau i Guto Roberts, Maesyrhaul, a fu'n dathlu pen-blwydd arbennig gyda'i gyfeillion yn y Miskin Manor yn ddiweddar.

Gohebydd Lleol
Apeliwn am ohebydd newydd o'r hen dref. Rhowch alwad i'r Golygydd os allwch helpu.

CWLWM BUSNES Y CYMOEDD
Alun Thomas
BBC Radio Cymru
'Gyrfa yn y newyddion'
6.00 Canolfan Menter y Cymoedd
Parc Navigation, Abercynon
11 Tachwedd 2003

Cinio Nadolig
Parc Treftadaeth y Rhondda
7pm Nos Fawrth 2 Rhagfyr
Croeso i bawb
Gwybodaeth bellach:
01685 877183

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon YsgolGymraeg Garth Olwg

TWMPATH DAWNS gyda Jac y Do

yn Neuadd Dowlais
ar 28 Tachwedd 2003

Tocynnau: £5 o'r ysgol

NOSON WOBRWYO

Nos Sul 12 Hydref cynhaliwyd Noson Wobrwyo myfyrwyr Cymraeg i Oedolion Morgannwg. Cyflwynwyd tystysgrifau credydau Rhwydwaith y Coleg Agored i tua 80 o'r fil sy wrthi'n dysgu yn yr ardal. Heather Jones oedd y wraig wâdd a cyflwynodd y tystysgrifau ac a adroddodd air o brofiad personol am feistroli'r iaith.

Cafwyd noson hyfryd a bwyd da. Diolch i staff Gwesty Treftadaeth y Rhondda am weini a chynorthwyo mor ddi-drafferth. Diolch hefyd i Maldwyn ac Ann, Siop y Bont am ddod ag arlwy eang o nwyddau, i Eric Evans am gynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ac i'r tiwtoriaid diwyd am hebrwng eu myfyrwyr.

Pe dymunai unrhyw ddarllenydd Tafod Elái alw i mewn ar un o'r dosbarthiadau i gael sgwrs a chynnig cymorth, cysylltwch â Colin Williams, 01443 402867 neu i.colin.williams@rhondda-cynon-taff.gov.uk.

"Mae llais Heather yn dal fel cloch, ond ydy?"

'Tiwtoriaid yn dal i ddysgu am ddysgu'

Sesiwn hyfforddi i rai o'r tiwtoriaid.



Y Daith i Uffern

Mae Gwasg Carreg Gwalch newydd gyhoeddi nofel gyntaf dyn o Ffynnon Taf sy'n 52 oed.

Martin Huws yw awdur Dim Niwed, nofel am Elsie, menyw yn gweithio mewn siop garpedi sy'n mynd yn gaeth i dabledi ac yn llithro i bwll anobaith. Mae'r nofel y sôn am ei thaith i uffern. Yn rhan olaf y stori gwelwn hi'n dringo o'r iselder erchyll ac yn llwyddo i roi pwrpas i'w bywyd. Ond beth yw'r pris y mae'n gorfod ei dalu?

"Dyma nofel uchelgeisiol sydd yn herio'r darllenydd o'r dechrau," meddai'r beirniad a'r nofelydd Marion Eames.

Dywedodd fod yr arddull a'r strwythur yn adlewyrchu cyflwr meddwl Elsie, arddull bytiog a thameidiog yn dilyn llif yr ymennydd.

"Mae hon yn nofel bwerus sydd yn ein siglo ar brydiau ac mae cynildeb yr ysgrifennu'n awgrymu llawer."

Bu Martin yn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Bryntaf, Caerdydd, cyn mynd i Ysgol Uwchradd Cathays. Bu'n weithiwr dur, yn swyddog clerigol ac yn ofalwr shifft. Wedyn bu'n is-olygydd ar y Western Mail, yn newyddiadurwr ar Y Byd ar Bedwar a Week In Week Out, gan ennill gwobrau Cymreig a Phrydeinig. Fe yw Uwchnewyddiadurwr Newyddion Cymru'r Byd, gwasanaeth arlein BBC Cymru.

Mae'n byw yn Ffynnon Taf gyda'i wraig Nest a'u merch Carys ac yn ohebydd papur bro Tafod Elái. Eisoes mae wedi cyhoeddi llyfryn dwyieithog am hanes Caerdydd a chyfrol o straeon byrion, Sgrech Rhyfel.

Bydd hon yn anrheg ddelfrydol i'r Nadolig.

Manylion bywgraffyddol
Dim Niwed. Martin Huws
£5.50 Gwasg Carreg Gwalch

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: Betsi Griffiths

DOSBARTH CWILTIO
Wedi dwy flynedd o waith mae'r Dosbarth Cwiltio wedi gorffen y cwilt. Bu Mrs Bryant, Mrs Abraham a Mrs Jenkins wrthi yn dysgu'r to iau sut i wneud cwilt yn nhraddodiad Gilfach. Mae nhw wedi bod yn cwiltio ers y tridegau pan oedden nhw yn ifanc ac wedi pasio'r grefft ymlaen i'r genhedlaeth nesaf. Bydd y cwilt yn cael ei gadw fel enghraifft er mwyn ei arddangos.

Er y llawenydd o orffen y cwilt roedd pawb yn flin i glywed am y lladron a ddaeth i dŷ Mrs Jenkins sydd yn 94 oed. Daeth dyn i'r drws gan ddweud fod yn rhaid iddo brofi pwysedd y dwr gan fod trafferth drws nesaf. Gadawodd Mrs Jenkins y dyn i'r tŷ a daliodd ei llaw ar y tap wrth iddo sylwi ar y dwr. Wedi iddo fynd sylwodd Mrs Jenkins fod rhywun wedi bod yn twrio drwy'r tŷ ac wedi dwyn ei harian i gyd.

Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Tydfil Parry, aelod o'r dosbarth a gollodd ei gwr yn ddiweddar sef Mr Derek Parry. Cyn ymddeol roedd Derek a Tydfil yn cadw'r siop Cig Moch Danaidd yn Nhreorci.

THEATR
Teithiodd dau lond bws yn ddiweddar i Theatr y ' Phoenix' Ton Pentre i gefnogi Marilyn Hodge aelod o gwmni drama Gilfach oedd wedi ei dewis gan Frank Vicery i chwarae yn ei gomedi diweddaraf 'Tonto Evans'. Roedd canmol mawr i berfformiad Marilyn a mwynhaodd pawb y ddrama yn fawr iawn. Bydd y ddrama yn mynd ar daith o gwmpas De Cymru.

HOLY MOSES
Aeth llond bws i weld Drama-gerdd Byddin yr Iachawdwriaeth Pentre. Roedd pawb yn canmol y sioe yn fawr iawn ac am longyfarch aelodau Pentre a weithiodd mor galed i gyflwyno noson o safon. Roedd y canu a'r actio yn arbennig o dda a gobeithiwn y bydd sioe arall y flwyddyn nesaf. Diolch i Mrs Lorraine Jones a Julie Kelly am drefnu'r ymweliad.

YMDDEOLIAD
Dymunwn yn dda i Don a Myra Jones sy'n ymddeol ar ôl bod yn Bostfeistri yn Swyddfa Post y Stryd Fawr am 28 o flynyddoedd. Bydd y Swyddfa Post yn awr yn rhan o Siop Judy ar y sgwâr

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Llangrannog
Ar brynhawn Gwener y 19eg o Fedi, fe aeth 58 o blant Blwyddyn 5 a 6 ynghyd ag aelodau dewr o staff i Wersyll yr Urdd, Llangrannog am benwythnos.
Cawsant amser prysur yn sgïo, nofio, merlota, gwibgartio, a.a. - y cyfan drwy gyfrwng y Gymraeg. Diolch i Mrs D Williams, Mrs Hulse a Miss Phillips am roi eu penwythnos i ofalu am y plant ac i Mr O'Neil ddaeth ar ymweliad ar y Dydd Sadwrn. Roedd 'na blant blinedig iawn yn Nosbarthiadau 7,8 a 9 yr wythnos ganlynol.

Crefftau
Yn ddiweddar, cawsom gwmni ymwelydd o'r India a ddaeth i ddangos i blant yr Adran Iau sut i wneud pob math o addurniadau gan ddefnyddio papur. Roedd wynebau'r plant yn werth eu gweld wrth iddynt wylio ymwelydd mor dalentog. Bydd 'na addurniadau Nadolig go wahanol yng nghartrefi'r fro eleni.

Trawsgwlad
Aeth 26 o blant Blynyddoedd 4,5 a 6 i gystadlu yng Nghystadleuaeth Rhedeg Trawsgwlad yr Urdd yn Nhonyrefail ar Ddydd Iau, y nawfed o Hydref. Da iawn nhw am gystadlu yn y gwynt a'r glaw a diolch yn fawr i'w rhieni am ddod i'w cefnogi. Llongyfarchiadau i Adam Lewis am ddod yn ail yn y ras i fechgyn Blwyddyn 6 ac i Dewi Shorrock am ddod yn bedwerydd yn y ras i fechgyn Blwyddyn 5. Efallai y sylwch chi fod Mrs Williams, Dosbarth 3 yn edrych yn hynod o heini hefyd y dyddiau hyn!

Wythnos Mathemateg
Fe ddathlodd yr ysgol "Wythnos Mathemateg 2003" drwy wahodd Mr Paul Gooding o "MathsCymru" i gynnal gweithdai Mathemateg gyda disgyblion yr Adran Iau ar Hydref y 23ain. Cafodd yr ysgol gyfraniad o £200 oddi wrth "Maths Cymru" tuag at gostau'r diwrnod.

Y Cynhaeaf
Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch eleni yn Eglwys y Plwyf, Llantrisant, yng nghwmni Ciwrat yr Eglwys. Roedd yr ysgol gyfan yn bresennol a chawsom eitemau cerddorol gan yr Uned Dan Bump, Adran y Babanod a'r Adran Iau.
Daeth y plant â chyfraniadau tuag at elusen o ddewis yr Eglwys.

Brysiwch wella
Pob dymuniad da i Lynne Morrow, cogyddes yr ysgol sydd heb fod yn hwylus yn ddiweddar. Gobeithio y bydd hi nôl gyda ni cyn bo hir.

Profiad gwaith
Cawsom gwmni nifer o fyfyrwyr a chyn-ddisgyblion ar brofiad gwaith yn ddiweddar. Daeth Leigh Davies, Catrin Evans a Hayley Evans atom o Ysgol Gyfun Llanhari a Rhian Griffiths o Goleg Penybont a Bethan John o Goleg Morgannwg. Gobeithio eu bod wedi mwynhau.

Ymweld â Llanhari
Bu disgyblion Blwyddyn 6 ar ymweliad ag Ysgol Gyfun Llanhari ar Hydref y 13eg er mwyn cymryd rhan mewn "Diwrnod Dylunio a Thechnoleg". Cawsant gyfle i greu addurniadau Nadolig a gemau pren i'w gwerthu yn ffair Nadolig yr ysgol.

Y Goedwig Law
Hefyd ar y 13eg o Hydref, cawsom gwmni Dave o'r "Rainforest Roadshow". Bu'n sôn wrth ddisgyblion Dosbarthiadau 5,6 a 7 am gymunedau'r goedwig law a rhai o'r creaduriaid sy'n byw yno. Daeth ag arteffactau o bob math gydag ef, ynghyd â tharantiwla, neidr filtroed a sgorpion go iawn.

Tân
Ar ddydd Sadwrn yr 11eg o Hydref bu tan yn y sied bren y tu ôl i Ddosbarth 7. Llwyddodd y Gwasanaeth Tan i reoli'r fflamau a'r unig ddifrod i'r dosbarth oedd bod rhai o'r ffenestri wedi'u cracio. Gallasai fod wedi bod llawer yn waeth.

Ymweliad
Cafodd plant Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 ddiwrnod i'r brenin ym Mhlas Llancaiach Fawr ddydd Mawrth, Hydref 14eg. Cawsant flas ar fywyd yn ystod oes y Tuduriaid drwy wneud cannwyll a gwisgo arfau'r cyfnod. Ar ôl bwyta cinio blasus cawsant hwyl a sbri yn casglu cnau, mes a dail yr Hydref, ym Mharc Ynys Angharad.

THEATR BARA CAWS
yn cyflwyno
DULCE DOMUM
gan Valmai Jones

gyda Maldwyn John, Valmai Jones, Christine Pritchard, Gaynor Morgan Rees, Olwen Rees a Manon Steffan

8pm Nos Wener a Nos Sadwrn, Rhagfyr 5 a 6 yng Nghanolfan Chapter, Caerdydd.
Tocynnau 029 20631144

CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Nia Williams

Pob llwyddiant
Dymunwn yn dda i Hywel Williams, Nythfa, Creigiau wrth iddo gychwyn yn ei swydd newydd ym myd yr arian gyda chwmni Price, Waterhouse a Coopers yng Nghaerdydd. Graddiodd Hywel eleni o Brifysgol Exeter.

Gwellhad buan
Anfonwn ein cofion am wellhad buan i Sue Roberts, Parc y Felin. Bu Sue'n anhwylus yn ddiweddar ond mae'n mendio.

Cantorion Creigiau
Mae'n dymor newydd arall ar aelodau prysur Cantorion Creigiau. Bob Sul daw hyd at 80 o aelodau ynghyd o dan arweinyddiaeth Mair Roberts. Mae ganddynt gyfeilyddes newydd ers y gwanwyn - Helen Watkinson, sy'n haeddu ei llongyfarch am iddi ennill ei gradd M.Mus. yn ddiweddar.

Yn barod y tymor hwn mae'r côr wedi cynnal dau gyngerdd llwyddiannus - un yn Eglwys Wesle, Caerffili i godi arian tuag at gynnal yr adeilad hardd, a'r ail yn y Ganolfan, Porthmadog lle buont yn codi arian at y Gwasanaeth Ambiwlans yn lleol. Cyngerdd hyfryd er gwaetha'r antur ar y ffordd o Ddinas Mawddwy. Yn anffodus doedd gan y bws druan ddim digon o bwer i gludo'r cantorion i fyny'r rhiw serth. Felly, doedd dim amdani ond cerdded! Yn y glaw ac yn eu sodlau uchel - y merched hynny yw! Ond mae'n gôr profiadol â chanddo'r gallu i oresgyn unrhyw broblem! Arhosodd y côr dros nos mewn 4 o dai G&B yng Nghricieth a chafwyd llety croesawgar a chyfforddus iawn. Roedd y siwrne adre yn ddidrafferth!

Rhag-hysbys i ddau ddigwyddiad lleol yn y dyfodol agos:
- 5 Rhag - Cyngerdd yn Neuadd y Pentre, Pentyrch i godi arian at Neuadd yr Eglwys, Creigiau
- 21 Rhag - Noson o garolau a darlleniadau yn Neuadd yr Eglwys, Creigiau. Croeso i bawb!
- Cynlluniau 2004 yn cynnwys:
- Mis Chwefror - taith i Iwerddon
- Mis Chwefror - cyngerdd yn Theatr Felinfach
- Mis Medi - taith i Laigueglia, yr Eidal i ddathlu gŵyl yn yr ardal
- Mis Hydref - cyngerdd yn Cheltenham

- Nifer o gyngherddau lleol i godi arian at achosion da ac elusennau.

Cantorion Creigiau

Ymddeol
Ymddeoliad hir a hapus i Meira Ellis Owen. Anodd credu nad yw hi ymhlith ei 'ffrindiau bach' yn ysgol Garth Olwg y tymor hwn. Rhoddodd Meira wasanaeth arbennig i'r newydd ddyfodiaid bach ifainc yn adran y babanod ym Mhentre'r Eglwys am flynyddoedd - mwynha dy ymddeoliad Meira.

Cylch Meithrin Creigiau
Mae pwyllgor, rhieni a chefnogwyr Cylch Meithrin Creigiau yn parhau i fod yn weithgar yn codi arian a threfni gweithgareddau. Trefnwyd trip i weld Nodi yn Neuadd Dewi Sant yng Nghaerdydd ym mis Hydref, daeth ffotograffydd i dynnu lluniau o'r plant ar ddydd Gwener hanner tymor yn y sesiwn Ti a Fi, ac ar Ddydd Sul yr 2il o Dachwedd cafwyd parti Calan Gaeaf yn Neuadd Pentyrch rhwng 4-6pm.

Ar nos Sul Rhagfyr yr 21ain byddwn yn crwydro'r pentref yn canu carolau ac yn dymuno Nadolig Llawen i bawb.

Rydym hefyd yn casglu cetris inc gwag o brinters cyfrifiaduron i'w hailgylchu am arian ac felly cofiwch amdanom cyn eu rhoi yn y bin tro nesaf! Gwybodaeth bellach oddi wrth Teleri Jones, 029 20899208 Trysorydd Cylch Meithrin Creigiau.

SWYDD CYNORTHWYDD CYLCH MEITHRIN CREIGIAU

I ddechrau cyn gynted a phosib.
Oriau 9.15 - 12.15.
Dydd Llun - Iau (i weithio 2-4 diwrnod). Tymor ysgol.
Ffoniwch Sarah ar 02920 891166 neu Teleri ar 02920 899208 neu anfonwch lythyr a CV at Sarah Davies, Llys Helyg, 7 Clos Tregarth, Creigiau.

Ysgol Heol-y-Celyn

Mae nifer o'r plant wedi bod i ffwrdd o'u cartref am ychydig ddyddiau yn ystod y mis diwethaf, unai i Bentref Ifan neu i Langrannog. Aeth Mrs Davies a phump o blant Blwyddyn 6 i Bentref Ifan am dridiau. Roeddent wedi ymuno â phlant o Garth Olwg a Castellau. Aethant i ymweld â'r pentre Celtaidd, Castell Henllys, Llangrannog, pwll nofio Abertawe ac aethant i wibgartio. Roedd pawb wedi mwynhau ac yn flinedig iawn yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl tridiau llawn cyffro di-gwsg!

Aeth tua ugain o blant o'r Adran Gymraeg i Langrannog am y penwythnos gyda Mr Leader, Mr Rees, Miss Jones a Miss Jenkins. Eto bu i bawb fwynhau a dychwelyd yn ôl i'r ysgol yn flinedig iawn.

Llongyfarchiadau mawr i Miss Claire Griffith ar ei dyweddiad a dymunwn y gorau iddi yn ei thy newydd ac ar gyfer ei phriodas ym mis Ebrill.

Llongyfarchiadau mawr i Ieuan Parsons a Kyle Baker Blwyddyn 6, Adran Saesneg ar gael eu dewis i chwarae rygbi i Ysgolion Pontypridd. Llongyfarchiadau i Jordan James Blwyddyn 3 yr Adran Gymraeg am ennill 'man of the match' wrth chwarae rygbi i dîm Rhydyfelin yn erbyn Llantrisant. Mae Levi Knowles, Fforest Quirke a Steel Quirke wedi cael eu dewis i fod yn fascot i glwb rygbi Pontypridd. Llongyfarchiadau a rwy'n siwr y gwnewch fwynhau yn arw.

Yn olaf y mis yma rhaid dweud llongyfarchiadau mawr i Miss Evans am ei champ yn y Gerddi Botaneg,. Bu i Miss Evans fynd ar 'Zip Glide' o un pen o'r Gerddi Botaneg i'r llall i godi arian at elusen Tenovus at Ganser.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Loreen Williams

Arddangosfa yn y Pentref
Yn ystod penwythnos olaf Mis Medi cynhaliwyd Arddangosfa gan arlunwyr lleol yn Neuadd y Pentref. Gwahoddwyd Jane Davidson, aelod lleol y Cynulliad i agor yr Arddangosfa ar y Nos Wener a bu'r Neuadd ar agor ar y Sadwrn a'r Sul ac fe ddaeth nifer dda o bobl i gefnogi'r fenter a phrynu lluniau. Roedd dros ddeugain o arlunwyr o'r pentref a phentrefi cyfagos Beddau, Llantrisant a Phentyrch wedi cyflwyno gwaith a oedd yn wledd i'r llygad.

Apêl Arch Noa
Bore Iau y nawfed o Hydref crewyd tipyn o gynnwrf yn y pentref pan ddaeth Ian Botham a'i griw o gerddwyr ar ras wyllt drwy'r pentref. Ymgasglodd nifer o bentrefwyr ac aelodau'r Tabernacl wrth y capel i'w gefnogi ar ei daith. Cyflwynwyd siec o £2000.00 iddo gan yr aelodau tuag at Apêl Arch Noa. Casglwyd yr arian ar daith gerdded noddedig i ben Mynydd y Garth ym Mis Mehefin.

Gwellhad Buan
Dymunwn yn dda i Lois, merch Celt ac Enfys Hughes, Nant y felin sydd wedi bod yn cael triniaeth go egr yn Ysbyty'r Brifysgol yng Nghaerdydd. Da clywed fod Lois adre erbyn hyn ac yn gwella'n dda.

Dymunwn yn dda i Arthur Garnon, Heol y ffynnon sydd heb fod yn rhy dda ei iechyd yn ddiweddar.

Swydd Newydd
Dymuniadau gorau i Rhian Mahoney, Heol Tir Coch yn ei swydd newydd yn rheolwr cyllid gyda Chwmni P.H.S yng Nghaerffili.

Cydymdeimlo
Trist yw gorfod cofnodi marwolaeth Colin Griffiths, Heol y ffynnon ar Ddydd Mercher, Hydref 22ain. Dioddefodd gyfnod hir o salwch a wynebodd gyda dewrder a siriol deb. Chlywyd mohono byth yn cwyno er ei fod mewn gwendid a phoen am fisoedd lawer.

Roedd Colin yn hanu o Hen-dy-gwyn-ar-daf a bu'n Bennaeth Adran Bioleg Ysgol Gyfun Aberpennar cyn iddo ymddeol rai blynyddoedd yn ôl. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant a Shelagh, Karen a Christopher a'r teulu i gyd yn eu galar. Bydd yn gadael bwlch mawr ar ei ôl ac mae amryw wedi colli ffrind agos iawn.

Merched Y Garth
Ar Nos Sul y pumed o Hydref fe deithiodd aelodau Côr Merched y Garth i Lwynpiod ger Llangeitho i gynnal cyngerdd i gloi dathliadau dau ganmlwyddiant y capel bach. Llinos Swain, sydd â'i gwreiddiau yng Ngheredigion oedd yr arweinydd a'r hyfforddwr. Cyflwynwyd yr eitemau gan Elenid Jones a'r cyfeilyddion oedd Eirlys Lamb (piano) ac Esyllt Swain (telyn). Canodd y Côr eitemau amrywiol o gerdd dant, alawon gwerin a chaneuon ysgafn a chyflwynodd Glenys Roberts ddetholiad o waith Kitchener Davies.

Yr unawdwyr oedd Guto Roberts, gwr Glenys ac Iestyn Morris sydd â'i wreiddiau yntau'n ddwfn yn yr ardal - yn wyr i Ambrose Bebb. Llywydd y noson oedd Meilyr Siôn yr actor o Aberaeron.

Cafwyd croeso gwresog iawn gan Mima Morse ar ran aelodau'r eglwys a gwledd o fwyd yn y Festri cyn ac ar ôl y gyngerdd. Mae'r merched am ddiolch o galon i'n gyrrwr bws arbennig gan na fyddai yr un ohonom wedi hoffi gyrru adre ar noson mor stormus a gwlyb.

Y TABERNACL
Bedydd
Ar Fore Sul cyntaf Mis Hydref bedyddiwyd Brengain, merch fach Heulyn a Catrin Rees. Roedd Brengain fach mor gartrefol ym mreichiau Tad-cu wrth iddo ei bedyddio.

Gwasanaeth Cynhaeaf
Cafwyd Gwasanaeth Cynhaeaf i'w gofio ar fore Sul y ddeuddegfed o Hydref. Daeth cynulleidfa luosog i wrando ar eitemau'r plant bach, y plant cynradd, aelodau'r grwp drama ac aelodau Teulu Twm. Cafwyd cyfraniadau diddorol hefyd gan Hefin Gruffydd a Geraint Rees. Yn ystod ei ymweliad â'r eglwys ym mis Medi tynnodd Y Parchedig Aled Edwards ein sylw at gyflwr truenus rhai o'r ceiswyr lloches yng Nghaerdydd. O ganlyniad penderfynwyd casglu bocsys o fwydydd i'r ffoaduriaid anghenus yma ar Fore Sul y Cynhaeaf.

Cydymdeimlo â theulu Lyn Devonald.
Bu farw Lyn Devonald, Pentyrch, un o aelodau'r Tabernacl yn ystod y mis. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf ag Angela, Lowri, Catrin ac Angharad ar golli gwr a thad annwyl.

Trefn y Suliau ar gyfer Mis Tachwedd
Tachwedd 2i1 Gwasanaeth Cymun o dan ofal Y Gweinidog
Tachwedd 9ed Y Parchedig Ddoctor Vivian Jones
Tachwedd 16ed Sul y Cyfundeb yn Llanhari
Tachwedd 23ain Y Parchedig Eirian Rees.
Tachwedd 30ain Y Parchedig Denzil James, Caerfyrddin.

Cyfarfod Blynyddol Mudiad Ysgolion Meithrin Rhondda Cynon Taf

7yh Nos Fawrth
18 Tachwedd
Y Miwni, Pontypridd
Te/coffi
Siaradwr/wraig gwadd
DEWCH!!

TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Meima Morse

Cylch Ti a Fi
Dymuna Ms. Ann Angell, Swyddog Datblygu Mudiad Ysgolion Meithrin, hysbysu'r newyddion da fod **Cylch Ti a Fi** wedi ail agor yn festri Capel Salem, Tonteg ar ddyddiau Mercher rhwng 1 a 3 o'r gloch. Dymunir pob llwyddiant i'r fenter.

Dathlu yn Llwynpiod
Bydd son am flynyddoedd i ddod mewn ardal fach ynghanol Ceredigion am y boddhad pur a gafwyd pan fu côr o'r ardal hon, gydag aelodau ynddo o Donteg a Phentre'r Eglwys, yn diddanu adeg dathlu daucanmlwyddiant adeiladu'r Capel. Y Capel yw Llwynpiod a'r côr oedd Merched y Garth. Ceir pobol yn para i sgwrsio yn y pentrefi cyfagos - Llangeitho a Thregaron - am y safon uchel a'r mwynhad llwyr a brofwyd adeg y noson - eitemau o gerdd dant a chanu gwerin gan y côr a chyfraniadau gwefreiddiol gan yr unigolion - Glenys Roberts, Iestyn Morris, Llinos Swain a Guto Roberts.

Rhaid yw son am ffaith ddiddorol iawn sef bod mamgu a thadcu Llinos Swain, arweinydd y côr, wedi byw'n y fferm agosaf i'r Capel ac wedi mynychu'r oedfaon yma. Yma hefyd y cafodd Mam Llinos ei geni ac yma clywyd y delyn am y tro cyntaf gydag Esyllt Swain â gofal clodwiw o'r tannau. Felly, uno pedair cenhedlaeth o fewn un teulu oedd un o ffeithiau gwerth eu cofnodi am y noson.

Ffaith ddiddorol oedd fod Iestyn Morris yn ŵyr i Ambrose Bebb sydd â chofeb wedi ei godi iddo yn ymyl Tregaron. Mae Iestyn erbyn nawr yn aelod o Gwmni Opera Carl Rosa ac enillodd llond Capel o ddilynwyr ffyddlon ar ei ymweliad â Llwynpiod. Dymunir y gorau posibl iddo yn ei yrfa.

Gwerthfawrogwyd y dewis gan Glenys o'r darn sy'n sôn am ardal Llwynpiod allan o "Swn y Gwynt sy'n Chwythu" gan James Kitchener Davies. Cafodd Kitch ei eni a'i fagu'n y Llain, fferm fach gyferbyn â'r Capel ac mae cofeb iddo ar wal y Capel. Er mwyn tynhau'r cwlwm cysylltiadau rhaid yw nodi fod Kitch yn gefnder cyntaf i fam Llinos.

Prawf o lwyddiant y noson oedd na soniodd unrhywun am galedi'r seddi am y ddwyawr y buont yn eistedd. Dymuna aelodau Capel Llwynpiod ddiolch o waelod calon i bob unigolyn a deithiodd yr holl ffordd o'r ardal hon i roi noson fythgofiadwy i gymuned yng nghefn gwlad Cymru. Roedd croesdoriad o ardal eang yn y gynulleidfa – peidied synnu os bydd ail – wahoddiadau!

Cymdeithas Gymraeg Salem.
Mae'r prysurdeb wedi dechrau. Codwyd elw derbyniol iawn yn y Noson Goffi a gynhaliwyd ganol Medi ac fe gafwyd noson gwerth chweil wrth deithio gydag un o aelodau'r gymdeithas, Mrs. Beryl E. Lewis, i Batagonia trwy gyfrwng anerchiad a lluniau. Clywyd am daith Beryl i Hallestadt – Crud y Celtiaid. Gwerthfawrogwyd yn fawr yr hwyl a'r doniolwch fedrodd Beryl ei gynnig hefyd wrth gyflwyno'r holl ffeithiau gwefreiddiol.
Newyddion da ydy deall fod Mrs. Chris Jones yn ymateb yn ffafriol i'r gofal mae'n ei dderbyn yn dilyn ei llawdriniaeth. Pob hwyl eto i'r dyfodol i Chris.

Os am
DIWNIWR PIANO

Cysyllter â
Hefin Tomos
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath
CAERDYDD
Ffôn: 029 20484816

Capel Salem. Hanes y dathlu

Cafwyd amser braf yn Salem yn y prynhawn ar y 12fed. o Hydref wrth i ni ddathlu penblwydd 150 oed y Capel. Cynhaliwyd gwasanaeth dwyieithog i gydnabod y garreg filltir arbennig hon ym mywyd y Capel.

Daeth cynulleidfa gref ynghŷd gan gynnwys cynrychiolwyr o ysgolion Gartholwg a Gwauncelyn ac eglwysi Calvary, Trefforest; Bethel, Y Ddraenen Wen; Salem, Cwmparc; Temple, Y Graig; Bethel, Pontyclun ac Eglwys y Plwyf. Llywyddwyd yr oedfa gan y gweinidog a'r Parchg. Hugh Wakefield, Bethel, Pentre'r Eglwys arweiniodd yn y darlleniadau. Parchg. Eirian Rees, Tabernacl, Efail Isaf, a'n tywysodd mewn gweddi ar ôl son am ei gysylltiad â'r Capel am draean o'i oes.

Adroddwyd hanes y Capel gan Mr. Berwyn Davies gan nodi mai mewn ystafell yn "The Crown Inn" (sydd bellach yn "Fagins") cychwynnodd yr achos. Estynnodd Parchg. Eifion Wynne gyfarchion ar ran eglwysi Cymanfa Dwyrain Morgannwg.

Bu dau o blant yr Ysgol Sul, Ryan ac Emma yn cyfeilio ar y recorder, gitar a ffidil dan arweiniad Lucy Pat Curl. Ann Williams oedd yn gwasanaethu wrth yr organ. Cyhoeddwyd y fendith gan y Parchg. Allan Pickard.

Hyfryd oedd gwrando ar y sgwrsio a'r chwerthin oddiamgylch y byrddau a oedd yn llawn trwy haelioni nifer fawr.

Gyda diolch i Dduw, a'r rhai a fu'n ffyddlon yn y gorffennol, edrychwn ymlaen yn hyderus i'r dyfodol.

Yn gywir,
Peter Cutts
(gweinidog Capel Salem) .

YSGOL GYFUN LLANHARI

Cynrychiolwyr yr Urdd
Mae Carly James a Leon Welsby o Flwyddyn 12 wedi gwirfoddoli a cael eu dewis i fod yn gynrychiolwyr yr Urdd yn yr ysgol eleni. Bu'r ddau ohonynt yn gweithio fel "Swogs" yn Llangrannog am bythefnos yn ystod gwyliau'r haf, ac yn amlwg wedi cael blas ar gynorthwyo gyda'r Urdd. Erbyn hyn maent wedi paratoi hysbysfwrdd ar gyfer digwyddiadau'r Urdd ac maent hefyd wedi bod yn goruchwylio y gwaith casglu arian aelodaeth mae eraill o flwyddyn 13 wedi bod yn ei wneud ar gyfer Mrs Hill. Diolch iddynt am eu cefnogaeth.

Trip y tîmau Pêl-rwyd i Ogledd Cymru
Yn ystod mis Medi aeth tîmau pêl-rwyd Llanhari, bl 8, 9, 10 ac 11 ar drip i Ogledd Cymru. Fe arhoson ni mewn hostel ieuenctid ym Mangor, ac am tua 8.30 am bob bore fe adawon ni am ysgolion Cymraeg a Saesneg yr ardal i chwarae gemau pêl-rwyd. Fe enillon ni lawer o'n gemau a cholli rhai hefyd ond er hynny cafon ni lawer o hwyl.

Nid dim ond chwarae pêl-rwyd wnaethon ni ar y trip. Fe aethon ni i'r sinema, bowlio, gorsaf drên Llanfair P.G. ac ni wnawn anghofio'r "rope works" a oedd yn brofiad rhagorol. Cafon ni drip arbennig oedd llawn hwyl a profiadau da.

Fe hoffem ni i gyd ddweud diolch mawr i Mrs Davies, Miss Williams, Miss Owen ac yn arbennig Miss Roberts am drefnu'r trip i ni. DIOLCH!

Hannah Saar

Cystadleuaeth Seiclo.
Hon oedd fy ras olaf o'r flwyddyn. Roedd hi yn ddiwrnod y ras Welsh Youth Criterium championships yn Llandudno. Ar y linell gychwyn roeddwn yn teimlo yn gynhyrfus, roedd yr haul yn tywynnu ac fel yr oedd y ras yn mynd ymlaen roedd yr haul yn mynd yn boethach ac yn boethach. Fe wnaethom ni rasio am 15 milltir o amgylch canol Llandudno. Ar fy rhan i roedd y ras yn mynd yn dda iawn, roeddwn ar y blaen o bryd i'w gilydd. Daeth pethau yn dactegol iawn erbyn y diwedd pan yr oedd yna sprint gyflym iawn at y llinell gorffen lle y gorffennais i yn ail. Roedd hon yn ras dda i orffen blwyddyn lwyddiannus iawn o seiclo i mi. Rwyf wedi cynrychioli Cymru nifer o weithiau eleni, yn rasio yn Iwerddon a gwlad Belg ac wedi ennill tair ras. Roeddwn yn bles iawn i ddod yn ail, a pwy a ŵyr beth fydd yn digwydd y flwyddyn nesaf ar ôl ymarfer yn dda dros y gaeaf a chamu i fyny i safon gynradd.

Eifon Weinzweig

Leon Welsby a Carly James

Mr a Mrs Mowlem gyda'r Brifathrawes, Ms Morris

Y Mabinogi
Fel unigolion sydd â diddordeb mewn Drama a chyfryngau cawsom gyfle gwych i ymweld â'r ffilm Y Mabinogi yn Theatr y Chapter. Addasiad o'r chwedlau Cymreig oedd y ffilm, roedd yn para am 2 awr ac yn cymeryd rhan roedd yr actor Matthew Rhys. Roedd y ffilm yn hanner animeiddio a hanner yn realistig ac roedd hyn yn ffordd dda o dargedu cynulleidfa ifancach gan ei fod wedi moderneiddio'r chwedlau i'r sgrîn fawr boblogaidd. Roedd y ffilm yn cynnwys pob math o storiau o'r Mabinogi, a roeddynt yn llifo mewn i'w gilydd. Roedd hyn yn ddull clyfar iawn o strwythuro'r stori ac yn dangos hunaniaeth Cymru o fewn ffordd ddiddorol. Cawsom sgwrs yn dilyn y ffilm gan y ddau sgriptiwr oedd yn trafod y prosesau cynhyrchu.

Danielle Branch

Eifion Weinzweig

Croesawu Cyfarwyddwr Masnach De Affrica

Estynnwyd croeso cynnes iawn i westeion arbennig iawn yn Ysgol Gyfun Llanhari ar fore dydd Llun 22ain Medi, pan yr ymwelodd Mr Michael Mowlem, Cyfarwyddwr Masnach a Buddsoddiad Prydain yn Ne Affrica, a'i wraig Mrs Janis Mowlem â'r ysgol. Mae staff a disgyblion Llanhari'n ddyledus iawn i Mrs Mowlem am ei charedigrwydd a'i pharodrwydd i weithio'n ddyfal wrth hybu cysylltiad rhwng Ysgol Gyfun Llanhari ac Ysgol Uwchradd Umqhele yn ardal Ivory Park ger Johannesburg.

Trosglwyddodd Mrs Mowlem negeseuon o gyfeillgarwch oddi wrth aelodau'r ysgol yn Ne Affrica, rhai ohonynt ar ffurf fideo a gymerwyd ganddi. Bwriad yr ymweliad oedd i fagu ymhellach ddealltwriaeth ddiwylliannol rhwng y ddwy gymuned ac i hoelio cydweithrediad agosach rhwng yr ysgolion yn y dyfodol.

Cafodd Mr a Mrs Mowlem gyfle i gyfarch yn arbennig ddisgyblion Blwyddyn 9 Ysgol Gyfun Llanhari, gan gynnig mewn weledigaeth iddynt o fywyd pobl gyffredin De Affrica. Roedd y cyfarchion o Ysgol Uwchradd Umqhele yn cynnwys fideo o nifer o ddawnsfeydd Zwlw a berfformiwyd gan fyfyrwyr, a drama fer ond pwerus iawn yn amlinellu peryglon ysgol aneffeithiol. Er mwyn i Mr a Mrs Mowlem, sy'n tarddu o Loegr, cael blas ar ddiwylliant Cymru, paratowyd gwledd o berfformiadau ar eu cyfer oedd yn cynnwys dawns y glocsen, cyflwyniad telynau, côr a chyflwyniad llafar. Roeddynt wedi'u syfrdanu â'r perfformiadau ac yn awyddus iawn i drosglwyddo recordiad fideo o'u hymweliad 'nol i Umqhele. Yn ystod y bore, rhoddwyd detholiad o roddion i Mrs Mowlem i'w trosglwyddo i Ysgol Uwchradd Umqhele ar ôl iddi ddychwelyd i Dde Affrica.

Lleolir Ivory Park rhwng Johannesburg a Phretoria, i'r dwyrain o Midrand. Mae hanner y gymuned yn ddi-waith ac mae'r bobl hynny sydd yn gweithio yn ennill cyflog cyfartalog sy'n llai na 800 Rand y mis. (Gwerth £1 yw oddeutu R14.) Gwelir problemau iechyd niferus a difrifol iawn yn y gymuned o ganlyniad i effeithiau problemau amgylcheddol yr ardal yn y gorffennol.

Agorwyd Ysgol Gyfun Umqhele yn 1993 ar gyfer mwyafswm 1,200 o ddisgyblion 14-18oed. Erbyn heddiw, o ganlyniad i brinder darpariaeth ysgolion uwchradd yn Ivory Park, mae 2,087 o ddisgyblion wedi'u cofrestru yn yr ysgol.

Parhad >>

Ysgol Creigiau

Llangrannog

Aeth Blwyddyn 5 a 6 yr Adran Gymraeg i Wersyll yr Urdd, Llangrannog am y penwythnos. Roeddem yn edrych ymlaen yn fawr a chawsom i gyd hwyl ar bopeth. Diolch yn fawr i'r ddwy Mrs Hughes am ofalu ar ein holau tra roeddem ni i ffwrdd.

Bythefnos wedyn aeth Blwyddyn 6 yr Adran Saesneg i Langrannog. Cawson nhw i gyd lawer o hwyl a sbri, a dathlu dau ben-blwydd yno, sef Rhiannon Fisher ac Ellis Hodgson. Diolch yn fawr i Mrs Elliott, Miss Roberts a Mrs Stone.

Llanhari a De Affrica

(parhad)

Tarddiad y berthynas rhwng Ysgol Gyfun Llanhari ac Ysgol Uwchradd Umqhele oedd buddugoliaeth Llanhari yn y gystadleuaeth `Ein Byd' a drefnwyd gan WWF/DEFRA.

Ers hynny, mae ysgol Gyfun Llanhari wedi hoelio partneriaeth ag Ysgol Uwchradd Umqhele yn Ivory Park ac mae staff a disgyblion Llanhari eisoes wedi cynnal nifer o weithgareddau er mwyn cynnal y bartneriaeth. Ni fwriedir casglu a throsglwyddo symiau anferth o arian i Umqhele, ond yn hytrach, dymuniad Llanhari yw i gyflwyno gwahanol gynlluniau fydd yn annog poblogaeth Umqhele i fod yn fwy cynaladwy a hunangynhaliol.

Er mwyn ariannu gweithgareddau'r bartneriaeth, trefnwyd eisoes amryw o weithgareddau codi arian. Er enghraifft ar gyfer tymor y Nadolig mae disgyblion yr ysgol wedi dylunio a chynhyrchu cyfres o gardiau Nadolig deniadol yr olwg. Bwriedir gwerthu'r cardiau mewn pecynnau o bedair am y gost resymol o £1.00 y pecyn.

Mae trefniadau ar y gweill i gasglu offer a deunyddiau dysgu ac addysgu i'w trosglwyddo mewn cynhwysydd ar long i Ysgol Uwchradd Umqhele yn Ne Affrica, gyda chymorth yr elusen `School-Aid'. Yn ddiweddar, bu disgyblion Umqhele yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth côr yn Johannesburg ac mae staff yr ysgol yn awyddus iawn i gychwyn cerddorfa yn yr ysgol ac mae ymgyrch yn Llanhari ar hyn o bryd i gasglu hen offerynnau i'w cludo allan i Ivory Park. Estynnir croeso cynnes i aelodau'r cyhoedd gyfrannu'u hofferynnau segur i'r fenter hon. Croesawir yn ogystal, unrhyw gyfraniadau a welir ar restr `School-Aid', gydag apêl arbennig am hen offer gwaith pren, metel, electroneg neu arddio.

Techniquest

Aeth Dosbarth 5 i Techniquest i ddysgu ffeithiau am oleuni a sain. Cafodd Molly, Megan Owen a Joel gyfle i gymryd rhan yng ngweithgaredd y Theatr. Cafwyd trip gwerth-chweil, a llawer o wybodaeth yn ymwneud â'r thema.

Castell Cyfarthfa

Aeth Dosbarth 4 i Gastell Cyfarthfa, y ffwrneisi, a Bwthyn Joseph Parry. Roedd yn drip hynod o ddifyr ac addysgiadol.

Sain Ffagan

Aeth Dosbarth 4 i Sain Ffagan. Roedd pawb yn gwisgo fel pobl Oes Fictoria - hyd yn oed Miss Roberts. Newidiodd Miss Roberts ei henw i 'Miss Thomas' am y dydd a throi i mewn i athrawes ffyrnig o Oes Fictoria. Cafon nhw wers Fictorianaidd yn Ysgol Maestir.

Diolch

Diolch yn fawr iawn i'r rhieni a roddodd eu hamser i ddod gyda ni ar dripiau'r Adran Gymraeg y tymor hwn. Ni fyddai'n bosibl trefnu'r gweithgaredd fel arall, a bu'n werthfawr iawn i'r plant.

Picnic Tedi Bêr

Thema Dosbarth 3 y tymor hwn yw 'Dathliadau'. Cawson nhw barti pen-blwydd tedi bêrs gan ddysgu gweithgareddau Mathemateg. Roedd pawb yn helpu i rannu'r bwyd yn gyfartal, mesur pennau'r tedis i wneud hetiau, haneru, chwarteru a.y.b.. Roedden nhw hefyd yn dysgu am siapiau solid a silindrau. Roedd pawb yn cyfrannu i wneud y bwyd.

Sioe Roadie

Daeth Roadie i'r ysgol i berfformio sioe i'r Babanod am 'Ddiogelwch ar y Ffordd'. Diolch Roadie !

Croeso

Croeso mawr i Jessica Forbes sydd wedi dod i Ddosbarth 1 yr holl ffordd o'r Alban.

Pêl-droed

Aeth tîm pêl-droed y merched i Erddi Soffia, i chwarae mewn twrnament 16 tîm. Chwaraeon ni yn erbyn timau'r Ddraenen Wen, Pentyrch a Llanisien Fach. Daethom ni yn gyfartal â Phentyrch, a cholli yn erbyn Llanisien Fach a'r Ddraenen Wen.

Tag Rygbi

Aeth y tîm tag rygbi i Bentyrch i chwarae mewn Gŵyl Tag Rygbi yn erbyn timau Pentyrch, Radur a Thongwynlais. Enillwyd dwy gêm a dod yn gyfartal yn y llall. Cafodd y tîm lawer o hwyl.

Capital Rygbi

Mae Blwyddyn 6 yn edrych ymlaen yn eiddgar at bob dydd Mawrth gan fod Mr Williams yn dod i roi gwersi rygbi iddynt.

Gwasanaeth Diolchgarwch

Dosbarth 2 oedd yn arwain y Gwasanaeth Diolchgarwch eleni, gyda phawb yn cael cyfle i gymryd rhan. Yn ogystal, roedd y plant wedi dod â bwyd i'w anfon ymlaen i Croatia a daeth Irene John i'w dderbyn ac i egluro sut y dosberthir y rhoddion. Hefyd, casglwyd arian tuag at Apêl Dystroffi'r Cyhyrau, a daeth Catherine North, Trefnydd Rhanbarthol yr Apêl, i dderbyn siec am £200 ac egluro effeithiau'r salwch. Edrychwn ymlaen at ei gweld eto ddiwedd y tymor gan obeithio y byddwn yn gallu datrys y pôs a osododd inni. Roedd yn braf hefyd croesawu'r Parchedig Binney, Ficer newydd Pentyrch, a'n harweiniodd ni mewn gweddi. Diolch am bob cyfraniad.

Ian Botham

Bu plant Blwyddyn 5 a 6 yn edrych ymlaen yn eiddgar iawn at fynd i weld y cyn-gricedwr yn cerdded drwy Creigiau ddydd Iau Hydref 9fed. Roedd ar daith gerdded eleni eto drwy Dde Cymru i godi arian tuag at Apêl Arch Noa. Roeddem yn sefyll ar y palmant ar Ffordd Caerdydd a chasglwyd swm anrhydeddus ar gyfer yr Apêl – diolch i'r rhieni am ymateb mor hael ar fyr rybudd.

Ysgol Garth Olwg

Dathlu'r Cynhaeaf
Bu'r prysurdeb arferol eto eleni yn dathlu'r Cynhaeaf ar Hydref 24ain trwy gynnal tri gwasanaeth yn yr ysgol, un gan yr Adran Feithrin, un gan y plant derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn2 ac un gan blant Blwyddyn 3, Blwyddyn4, Blwyddyn5 a Blwyddyn 6. Y siaradwr gwadd eleni oedd y Parch Owain Llyr Evans o Gaerdydd. Fel rhan o'r dathlu eto eleni, bu rhai dosbarthiadau ar ymweliadau cymunedol – Blwyddyn 2 a Blwyddyn 4 ar ymweliad â Chartref yr henoed ar safle Garth Olwg, Blwyddyn 5 ar ymweliad â Chartref yr Henoed, Penrhos yn Llanilltud Faerdre, ac fe fydd Blwyddyn 6 yn ymweld ag Ysgol Tŷ Coch ar ôl hanner tymor. Dosbarthwyd cynnyrch y Cynhaeaf trwy gymorth Canolfan Ddyddiol y Beddau.

Arian at Achos Da
Rhan arall o ddathlu'r Cynhaeaf fu codi arian at achos da. Yn ystod yr hanner tymor, anfonwyd siec am £727 i Apêl Arch Noa, a bu taith gerdded Ian Botham heibio'r ysgol ar Hydref 9ed yn hwb mawr tuag at godi'r arian. Diolch i bawb am eu hymdrech.

Traws Gwlad
Profodd bechgyn a merched Blwyddyn 5 a 6 gryn lwyddiant yn rasus traws gwlad yr Urdd a gynhaliwyd yn Nhonyrefail ar Hydref 9ed. Fel unigolion daeth Elise Rees yn ail yn ei ras sef ras merched Blwyddyn 5, a daeth Lowri Jones yn bedwerydd. Fel timau, daeth tîm merched Blwyddyn 5 yn ail, a thîm bechgyn Blwyddyn 6 yn gyntaf. Llongyfarchiadau i bob un.

Athletau Dan-do
Fe fu tîm athletau Blwyddyn 6 yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth athletau dan-do a gynhaliwyd yn Nhonyrefail ar Hydref 23, gan ddod yn ail o'r pum tîm oedd yn cystadlu.

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon
Mae pwyllgor newydd y gymdeithas wrthi eisoes yn brysur yn codi arian ac yn trefnu gweithgareddau cymdeithasol. Fe gynhelir yr arddangosfa dân gwyllt blynyddol ar gae'r ysgol ar Dachwed 8; pris y tocynnau £3 i oedolion, £1 i blant.

Mae'n debygol mai dyma fydd yr arddangosfa tân gwyllt olaf y gellir ei gynnal, cyn adeiladu'r Garth Olwg Newydd.

Twmpath gyda Jac-y-Do yn Neuadd Dowlais ar Dachwedd 28ain – Pris tocynnau £5 – i'w cael o'r ysgol.

Llun: Laura Cadwgan

Dathlu Priodas
Bu cryn gynnwrf yn yr ysgol ar Hydref 17, wrth i blant Blwyddyn 1 drefnu a dathlu priodas fel rhan o'u hastudiaethau addysg grefyddol. Cynhaliwyd y briodas yng nghapel Salem, ac arweiniwyd gan y Parch Peter Cutts, gweinidog Salem. Y priodfab oedd Gruffydd Bowen-Jones a'r briodferch oedd Abigail Francis. Y gwas priodas oedd James Christopher, a chefnogwyd y briodferch gan bedair morwyn briodas. Cynhaliwyd y wledd briodas yn yr ysgol. Diolch yn fawr i Mrs Karen Evans, athrawes Blwyddyn 1 am drefnu'r gweithgaredd, ac i Mrs Barbara Langdon y gynorthwywraig dosbarth, am gynorthwyo mor frwdfrydig, yn arbennig gyda'r camera fidio. Diolch hefyd i'r rhieni, a ddaeth i'r capel, fel cynulleidfa, i gefnogi'r priodfab a'r briodferch, ac am sicrhau fod ceir wrth law.

Llun: Natasha Ashton

Llun: James Christopher

Llun: Elis Widgery

Mrs Owen
Atgofion Blwyddyn 6

Roedd Mrs Owen yn ffrind i bawb yn yr ysgol, y plant, yr athrawon, y rhieni a'r ymwelwyr. Hyd yn oed os oedd rhywbeth yn bod bydde hi'n fodlon i helpu. Roedd gwên ar ei hwyneb drwy'r amser. Roedd Mrs Owen wedi bod yn yr ysgol am amser hir, nawr dydy hi ddim yr un peth hebddo hi.

Rydw i yn cofio Mrs Owen yn chwerthin yn ofnadwy achos roedd Mr Meredith wedi cwympo o'i gadair yn yr Eisteddfod ysgol.

Roedd Mrs Owen yn athrawes arbennig oherwydd ei hymdrech galed.

Bethan Jones

Mrs Owen
Roedd Mrs Owen yn ddynes garedig ofnadwy. Roedd hi'n ffrind i bron pawb yn yr ysgol, yr athrawon a'r plant. Roedd hi'n athrawes ardderchog i'r Meithrin, roedd hi fel mam i ni. Roedd gwên ar ei hwyneb o fore gwyn tan nos. Roedd Mrs Owen bron wedi dysgu pawb yn yr ysgol. Mae pawb yn meddwl am Mrs Owen yn y feithrin.

Danielle Hayley

Mrs Owen
Roedd Mrs Owen yn ddynes garedig iawn wrth bawb. Roedd hi trwy'r amser yn eich helpu os oeddech chi angen help. Roedd pawb yn ei hoffi.

Rydw i'n cofio pan roedd hi'n gwneud y gwasanaeth, fe eisteddodd hi ar ochr y fainc a daeth y fainc fyny a chwympodd hi ar y llawr! Roeddwn i'n hoff iawn o Mrs Owen.

Pan oeddwn i yn nosbarth Mrs Owen roeddwn i methu siarad gyda neb yn Gymraeg (oherwydd dim ond fi oedd yn gallu siarad Cymraeg ar y dechrau) felly roeddwn i'n mynd i eistedd ar bwys Mrs Owen a siarad gyda hi yn lle!

gan Eiri Angharad.

Mrs Owen
Roedd Mrs Owen yn ddynes garedig dros ben. Mi fyddai hi yn helpu a gwneud pob math o bethau. Fel cwympo o fainc yng nghanol gwasanaeth!

Fe ddysgodd Mrs Owen fi. Roedd hi'n llawn cyffro a hwyl. Roeddwn i'n hoff iawn o Mrs Owen oherwydd roedd hi yn wên o glust i glust bob amser, a byth yn rhoi stwr i ni!

Roedd Mrs Owen yn gwneud i bawb chwerthin, wel roedd hi'n hala i fi i chwerthin! Roedd Mrs Owen yn helpu pawb os oedd angen help. Roedd hi'n ddynes garedig iawn wrth bawb.

gan Anwen Jones

Mrs Owen
Roedd Mrs Owen yn gadael i ni fynd a bochdew adre i edrych ar ei ôl. Roedd hi'n athrawes ddoniol iawn. Roedd ganddi gwên ar ei hwyneb drwy'r dydd.

Rydw i'n cofio pryd roedd e'n ddiwrnod cyntaf fi ac roeddwn i'n crio ag roedd Mrs Owen yn fy helpu i.

A rydw i'n cofio pryd roedden ni'n mynd i'r gornel i gael stori a doeddwn i ddim yn gwrando o gwbl!

Dion Wilcox

Mrs Owen
Roedd Mrs Owen yn ddynes neis iawn. Roedd yn garedig a phob amser yn hapus. Roedd Mrs Owen wastad yn gwenu ac yn dangos i ni llawer o weithgareddau hwyliog i drio. Rydw i'n cofio unwaith, cwympodd oddi ar fainc oherwydd doedd neb ar yr ochr arall. Roedd yna llawer o ddigwyddiadau doniol gyda Mrs Owen fel athrawes gyntaf ac mae pawb yn ei chofio'n arbennig o dda.

Hannah Carley

Mrs Owen
Mae Mrs Owen yn ddynes garedig. Dysgodd hi fi yn fy mlwyddyn gyntaf yn yr ysgol. Roedd hi'n fy helpu i wneud popeth. Rydw i'n cofio amser chwarae yn ei dosbarth, roedden ni i gyd yn eistedd mewn cylch ac roedd Mrs Owen yn dod â'r llaeth o gwmpas.

Mae Mrs Owen yn ddynes garedig, hapus a llawen. Mae trwy'r amser gyda gwên ar ei hwyneb.

Cyn mynd gartref roedd hi'n darllen stori i ni oherwydd roedd hi'n gwybod ei'n bod ni'n hoffi e. Os oedd hi'n bwrw glaw byddai hi'n rhoi fidio arno a byddai pawb yn ei wylio. Roedd rhai o'r plant yn cael eistedd ar ei glin.

Yn fy mlwyddyn 5 roedd Mrs Owen wedi ymddeol. Doedd neb moen iddi fyn ond roedd hi wedi mynd. Mae Mrs Owen yn dod nôl i'n gweld felly rydyn yn dal gallu bod yn ffrindiau.

Rebecca Outing

Mrs Owen
Roedd Mrs Owen yn ddynes ddoniol iawn . Mrs Owen oedd fy athrawes gyntaf yn Ysgol Garth Olwg. Roeddwn yn mwynhau amser roedd hi yn yr ysgol. Doeddwn i ddim eisiau iddi ymddeol. Roedd Mrs Owen yn ddynes garedig ac yn hapus bob tro mi fyddwn yn ei gweld hi.

Rydw i'n cofio amser roedd hi'n bwrw glaw mi fyddwn yn mynd i eistedd ar gôl Mrs Owen i wylio'r teledu. Rydw i'n cofio pan yn y dosbarth roedden ni yn chwarae gyda dŵr glas a pinc. Doedd Mrs Owen byth yn drist oherwydd roedd hi trwy'r amser yn hapus. Roeddwn i yn hoffi amser roedd e'n bwrw glaw oherwydd mi fydden yn gallu gwylio teledu a'r fidios. Roeddwn i'n dwlu ar y ffilmiau yn nosbarth Mrs Owen.

Gwenno Rees

FFYNNON TAF NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: Martin Huws

LLADD BEICIWR IFANC

Mae seren beicio wedi marw wythnosau ar ôl i'w dad ofyn iddo roi'r gorau i'r gamp.

Cafodd Luke Sallam, 18 oed, anafiadau difrifol ddiwedd Medi pan oedd yn rasio yn Llambed. Aed ag e i Ysbyty Treforys, Abertawe, lle bu farw yn yr uned gofal dwys ddau ddiwrnod yn ddiweddarach.

Roedd cannoedd yn ei angladd ar Hydref 9.

Dywedodd ei dad Andre, sy'n byw yng Ngwaelod-y-Garth, fod ei arennau a'i afu wedi achub bywydau tri pherson. "O leia, mae rhannau ohono'n fyw o hyd," meddai.

Naw wythnos yn ôl roedd Luke wedi torri pont ei ysgwydd mewn ras motocros. "Gofynnais iddo roi'r gorau iddi oherwydd yr holl anafiadau. Ond mynnodd ddal ati. Y gamp oedd yn dod yn gynta."

BEDDAU: MYND I GYFRAITH

Mae dau deulu'n mynd i gyfraith oherwydd dryswch beddau Mynwent Tŷ Rhiw, Ffynnon Taf.

Ym Medi bu raid i deulu ail gladdu menyw yr oedd ei hangladd cynta yn y fynwent ddwy flynedd yn ôl.

Yn yr angladd cynta dywedodd Marlene Jones fod ei mam, Lily Blackburn, wedi ei chladdu mewn bedd anghywir, wrth ochr dieithryn, ond dywedwyd wrthi nad oedd hyn yn wir.

Bu farw Mrs Blackburn yn 2001 a dylai fod wedi cael ei chladdu yn yr un bedd â'i gŵr, David, fu farw ym 1959. Ar Fedi 3 codwyd corff Mrs Blackburn o fedd a'r diwrnod canlynol cynhaliwyd yr ail angladd.

Yn gynt yn y flwyddyn gofynnodd teulu Brian Ashton a allen nhw osod carreg ar ei fedd yn yr un fynwent. Dywedodd swyddog wrthyn nhw nad oedd wedi ei gladdu yn y bedd lle roedden nhw wedi gosod blodau am 20 mlynedd.

CYLCH MEITHRIN FFYNNON TAF

Mae'r Cylch meithrin wedi derbyn clod 'Cylch Rhagorol' gan y Mudiad ac hefyd wedi cael Gradd A am Addysg yn arolwg Estyn.

Mae'r Cylch yn cwrdd o 9.30am - 12.00am - dydd Llun i ddydd Gwener. Y Ffi yw £4.75 y sesiwn.

Mae'r Cylch yn derbyn cymorth ariannol ar gyfer plant 3 mlwydd oed oddi wrth Gynghorau Sir Rhondda Cynon Taf a Chaerdydd.

Mae dau o'r staff wedi eu hyfforddi i 'Cache' Lefel 3, Gofal Plant ac Addysg ac mae gweddill y staff yn gwneud y cwrs ar hyn o bryd.

Rydym yn cynnig awyrgylch gyfeillgar a chynnes ar gyfer addysg i blant o dan oed ysgol.

Ti a Fi

Hefyd cynhelir Ti a Fi ar Ddydd Mawrth 1.15.pm - 2.30.pm (Ffi - £1.50 y sesiwn).

DAMWAIN: GOLLWNG CYHUDDIAD

Yn Llys Ynadon y Rhondda gollyngwyd cyhuddiad o achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus yn erbyn dyn oedd mewn damwain ger Ffynnon Taf.

Ar Fawrth 9 roedd Babar Siddique, 22 oed o Drelai, Caerdydd, yn gyrru BMW ar hyd yr A470. Trodd i siarad â Karla McCauley, 15 oed o Lanyrafon, Caerdydd. Cafodd hi ei thaflu o'r sedd ôl a bu farw.

Clywodd yr ynad Vivian Manning-Davies fod y cyhuddiad wedi ei dynnu'n ôl am nad oedd digon o dystiolaeth.

Plediodd Siddique yn euog i yrru heb drwydded nac yswiriant, gyrru heb ddigon o ofal, a gyrru cerbyd â theiars a gwregys nad oedd yn saff. Cafodd yr achos ei ohirio am fis a chafodd Siddique fechniaeth.

YN EU BLODAU

Llongyfarchiadau i enillwyr lleol Cystadleuaeth In Bloom Rhondda Cynon Taf - Angela Longford, Heol Caerdydd, Glan-y-llyn, ddaeth yn drydydd yn adran yr Ardd Ffrynt Orau ac Eglwys Unedig Ffynnon Taf oedd yn drydydd yn adran y Mannau Addoli.

ROGER YN CYRRAEDD TARGED

Llongyfarchiadau i Roger Watkins, Tawelfryn, Nantgarw, redodd Hanner Marathon Caerdydd mewn dwy awr a thair munud. Roedd y marathon ar Fedi 28.

Jill, ei wraig, yw Prifathrawes Ysgol Iau Caedraw a bydd yr arian a gododd Roger yn talu am gyfrifiaduron i blant ffaeledig.

BOM: DYN YN Y LLYS

Yn Llys Ynadon Weston-super-Mare mae dyn o Ffynnon Taf wedi ei gyhuddo o wneud galwadau ffug i faes awyr.

Honwyd fod Matthew Murphy-Kitto, 22 oed o Dŷ Rhiw, wedi ffonio Maes Awyr Rhyngwladol Bryste o leia ddwsin o weithiau rhwng Gorffennaf 20 a 21 a dweud fod bom yno. Bydd Kitto, oedd yn arfer gweithio yn y maes awyr, yn ymddangos gerbron Llys y Goron.

£150 O DDIRWY

Yn Llys Ynadon Pontypridd cafodd dyn lleol ddirwy o £150 a'i wahardd rhag gyrru am ddau fis. Cafwyd Jerry Davies, 20 oed o Heol Berry, Gwaelod-y-Garth, yn euog o yrru heb yswiriant.

DIGWYDDIADAU

CAPEL BETHLEHEM, Gwaelod-y-Garth, 10.30am. Tachwedd 2: Y Gweinidog (Cymun); Tachwedd 9: Y Gweinidog; Tachwedd 16: Y Gweinidog; Tachwedd 23: Y Gweinidog; Tachwedd 30: I'w lenwi.

CYLCH MEITHRIN Ffynnon Taf, 9.30-12, dydd Llun tan ddydd Gwener. Taliadau: £4.75 y sesiwn. Ti a Fi, 1.15-2.30 bob dydd Mawrth. Taliadau: £1.50 y sesiwn.

CYMDEITHAS ARDDWROL Ffynnon Taf a'r Cylch: ddydd Mawrth cynta'r mis, Clwb Cyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog, Glan-y-Llyn. Manylion oddi wrth Mrs Toghill, 029 20 810241.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Bethan Griffith

Cydymdeimlo
Roedd colli Lyn Devonald, Cefn Bychan yn sioc fawr i'r pentref ac roedd yn amlwg o'r dyrfa fawr aeth i'r angladd yn Amlosgfa Thornhill yng nghanol mis Hydref fod parch mawr iddo mewn nifer o gylchoedd.

Yn enedigol o Faesteg aeth i Brifysgol Caerdydd ac yna sefydlodd bractis Cyfreithiwr yn y Rhondda. Bu'n amlwg iawn yn y maes a bu'n Gadeirydd Cymdeithas y Cyfreithwyr. Yn ei deyrnged i Lyn soniodd Huw Llywelyn Davies am ei ddiddordeb brwd mewn chwaraeon, yn arbennig criced ac am ei gefnogaeth i fudiadau Cymraeg. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Eirian Rees.

Cydymdemlwn â Angela, ei wraig a'r merched Lowri, Catrin, ac Angharad a'r teulu.

Croeso i'r pentref
Mae gan Tafarn y Kings berchnogion newydd. Mae Deb a Martin Peters wedi cymeryd dros yr awennau ers y cyntaf o Hydref, ac mae'r Kings ar ei hennill. Sefydlodd Deb a Martin, Woods yn Tonysguboriau yn 1993, cyn symud i'r Bae yng Nghaerdydd yn 1999.Er eu bod yn dal efo diddordeb yn y fenter yn y Bae, dyma fenter newydd y ddau ohonynt. Maent wedi symud i fyw uwchben y dafarn, ac yn ôl y sôn maent wedi cael dechrau arbennig o dda. Mae ganddynt gynlluniau i wneud gwelliannau i'r gegin a'r bwyty. Mae'n braf cael dewis o fwyd o safon ar drothwy'r drws. Dwi'n siwr fydd selogion Woods o ardal Tonysguboriau â diddordeb i glywed eu bod ychydig yn agosach. Pob lwc iddynt.

Ffotograffydd o Fri
Llongyfarchiadau i Robert Morgan, Alloway sydd newydd ennill Cystadleuaeth Ffotograffiaeth Calendr gyda'r Pontypridd Observer. Enillodd y wobr gyntaf sef £250 yn y gystadleuaeth o dan 18 oed, er mae yn Mlwyddyn 7, Plasmawr mae Robert.Derbyniodd y wobr oddiwrth Jane Davidson. Mae gan Robert ddiddordeb mawr mewn ffotograffiaeth.Ychydig fisoedd yn ôl roeddwn yn dy longyfarch ar ennill gwobr Ted Breeze Jones yn Eisteddfod yr Urdd. Mae rhaid dy fod yn pendroni sut i wario'r arian nawr Robert!

Rhywbeth arall sydd yn rhoi pleser i Robert yw ei sacsoffon. Llongyfarchion i ti Robert wedi i ti lwyddo gyda chlod yn dy arholiad Gradd 5. Bachgen medrus, mae'n amlwg!

Clwb Y Dwrlyn
Cynhaliwyd Cwis yng Nghlwb Rygbi Pentyrch ym mis Hydref o dan ofal y Cwis-feistr Huw Onllwyn. Roedd y cystadlu rhwng y timoedd yn frwd ac roedd yr ystod eang o gwestiynau yn brawf ar gof a gallu.

menter caerdydd

Blasu Gwin yn Le Gallois

Taith Bws i Gaerfaddon
Dydd Sadwrn, Tachwedd y 29ain mae Menter Caerdydd yn trefnu taith bws i Gaerfaddon. Mae'r tocynnau'n £10. Cyfle gwych i wneud eich siopa Nadolig!

Noson Blasu Gwin
Mae nosweithiau Blasu Gwin y Fenter wedi bod yn hynod lwyddiannus, ac i roi cyfle i chi brynu gwin ar gyfer y Nadolig mae noson arall wedi'i threfnu ar gyfer Nos Lun, Rhagfyr y 1af. Fe fydd cyfle i chi flasu a phrynu gwinoedd a Champagne! Mae nifer cyfyngedig o docynnau ar gael am £12 yr un.

Bore Coffi i Ddysgwyr
O Ddydd Mawrth, Tachwedd y 18fed ymlaen, fe fyddwn yn cynnal boreau coffi yng Nghlwb y Cameo, Pontcanna rhwng 10 ac 11yb. Cyfle gwych i Ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg mewn awyrgylch hamddenol braf.

Hwyl yr Ŵyl!
Fel rhan o Wyl Aeaf Caerdydd o flaen Neuadd y Ddinas eleni, mae Menter Caerdydd yn bwriadu cynnal sesiynau Hwyl yr Ŵyl!! Fe fydd llond lle o adloniant Cymraeg, gan gynnwys Côr Plant Caerdydd, Disco 007, Côrdydd, Martyn Geraint, Sali Mali a Nia a Now o Blaned Plant!! Fe fydd Hwyl yr Ŵyl yn cael ei gynnal Ddydd Llun, Rhagfyr y 1af, Rhagfyr yr 8fed a Rhagfyr y 15fed.
Am fanylion am un o'r gweithgareddau uchod cysylltwch ag Angharad Thomas yn swyddfa'r Fenter ar 029 20565658 neu e-bostiwch angharadthomas@mentercaerdydd.org.

Gellwch gofrestru i gael gwybodaeth cyson am weithgareddau Menter Caerdydd drwy gofrestru ar e-chlysur ar safle gwe www.mentercaerdydd.org.

Ysgol Gymraeg yn Llundain

Mae Ysgol Gymraeg yn Llundain yn awyddus i gysylltu â theuluoedd o Gymru sydd yn byw yn Llundain, yn enwedig hefo teuluoedd sydd â phlant ysgol gynradd. Nid oes rhaid iddyn fedru siarad Cymraeg; rydym am ddarganfod a oes galw am gysylltiadau Cymreig – addysgol neu gymdeithasol – gan y teuluoedd yma.

Os gŵyr eich darllenwyr am unrhyw deulu Cymraeg, a fyddent gystal â danfon manylion y teulu i'r ysgol, neu ofyn i'r teulu gysylltu'n uniongyrchol â'r ysgol. Rydym angen yr wybodaeth isod:
Enwau'r tad a'r fam
Nifer y plant a'u hoedran
Cyfeiriad, rhif ffôn a/neu gyfeiriad e-bost
Diolch o galon am roi lle yn eich papur i'r llythyr yma.

Elisabeth James
Prifathrawes
Ysgol Gymraeg Llundain
Shakespeare Avenue
Stonebridge BRENT
Llundain NW10 8NG

Ysgol Pont Siôn Norton

Cynhwysiad Cymdeithasol
Bu criw bach o ddisgyblion Blwyddyn 6 ar ymweliad preswyl â Phentre Ifan yn Sir Benfro yn ystod mis Hydref. Mr Prys Huws fu'n gofalu amdanynt eto y tro yma.

Llangrannog
Aeth tua 50 o ddisgyblion Blynyddoedd 5 a 6 i Langrannog ar benwythnos Hydref 3ydd i'r 5ed. Cawsant benwythos wrth eu bodd a diolch i aelodau staff yr ysgol a fu yn gofalu amdanynt.

Cronfa MacMillan
Soniwyd yn y rhifyn diwetha o'r Tafod fod ein casgliad Gwasanaeth Cynhaeaf eleni yn mynd tuag at Gronfa MacMillan. Hefyd cynhaliwyd Bore Coffi wedi ei drefnu gan ddisgyblion Blwyddyn 6 yr ysgol ddiwedd mis Medi. Cyfunwyd yr arian a gasglwyd o'r ddwy fenter yma a chyflwynwyd siec o £350 i'r gronfa uchod.

DARE
Mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi dechrau'r cwrs DARE eto eleni. Cwrs ydy hwn sy'n codi ymwybyddiaeth y plant o beryglon cyffuriau. Bu'r cwrs yma'n llwyddianus iawn llynedd ac yn rhan bwysig o'u haddysg.

Sêr y Teledu
Yn dilyn y cyfweliadau a gynhaliwyd yn yr ysgol gan gwmni teledu Alfresco rhaid llongyfarch Kate Walters a Carwyn Hughes am gael eu dewis i gymryd rhan mewn cwis newydd o'r enw SWOT. Byddant yn ffilmio'r rhaglen ar Dachwedd 11eg. Pob lwc i'r ddau.

Planed Plant
Mae disgyblion Cyfnod Allwedol 1 wedi bod yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer y Nadolig. Braidd yn gynnar efallai ond mae ein hysgol wedi cael ei dewis eleni i bortreadu 'Stori'r Geni' ar y rhaglen Planed Plant bob dydd yn ystod yr wythnos sy'n arwain at y Nadolig. Byddant yn ffilmio'r rhaglenni yn yr ysgol canol mis Tachwedd. Mae'r plant wedi bod yn gyffrous iawn ac yn edrych ymlaen yn eiddgar at weld eu hunain ar y teledu yn enwedig ar Ddydd Nadolig.

YSGOL EVAN JAMES

www.ysgolevanjames.co.uk

Bu'n hanner tymor prysur unwaith eto yn yr ysgol yn cynnwys nifer o deithiau ac ymweliadau.

CROESO 'NOL A LLONGYFARCHIADAU
Croeso 'nol i Emma Smith ar oôl cyfnod mamolaeth a llongyfarchiadau i Lisa Goodwin a Stuart ar enedigaeth mab – Christian – brawd bach i Sali.

DISGYBLION NEWYDD
Braf oedd croesawu toreth o blant newydd i'r ysgol ym mis Medi. 'Roedd ambell i ddeigryn, ond maen nhw i gyd wedi setlo erbyn hyn.

Cyfnod Mamolaeth
Dymuniadau gorau i Mrs Sara Ryall sy'n ein gadael am gyfnod ar Dachwedd 14eg i baratoi ar gyfer genedigaeth ei hefeilliaid. Croeso i Miss Catrin Thomas sy'n ymuno â staff yr ysgol yn ystod y cyfnod y bydd Sara i ffwrdd.

Myfyrwyr o'r Colegau
Croesawn dair myfyrwraig o Goleg UWIC i'n plith y flwyddyn yma, sef Siwan Francis, Charlene Kotsiba a Rhianwen Davies.

Hefyd croeso nôl i un o'n cyn-ddisgyblion, Rebecca Lane, sy'n hyfforddi yng Ngholeg Pontypridd i fod yn weinyddes feithrin.

Digwyddiadur Ail Hanner Tymor yr Hydref

3/11/2003 Diwrnod agored yr adran Feithrin
8/12/2003 Cyngerdd Nadolig y Babanod 6.00 yng Nghapel Coedpenmaen
9/12/2003 Cyngerdd Nadolig yr Adran Feithrin 10.00 yng Nghapel Coedpenmaen
Cyngerdd Nadolig y Babanod 1.30 yng Nghapel Coedpenmaen
11/12/2003 Sioe Nadolig yr Adran Iau 6.30 (lleoliad i'w gyhoeddi)

YMWELIAD AWDURES
Cafodd y dosbarthiadau derbyn wledd adeg ymweliad yr awdures Loreen Williams ô'r ysgol. Darllenodd ei llyfr "Marged a'r Dinosor" a thrafod y stori gyda'r plant wedyn. Mae dosbarthiadau 3 a 4 yn dweud diolch yn fawr Mrs. Williams!

TEITHIAU
Aeth dosbarthiadau 7 ac 8 ar daith hanesyddol o gwmpas Pontypridd yng nghwmni Curadur Canolfan Hanesyddol y dref Mr. Brian Davies. Gwelson nhw lawer o hen dai'r dref ac 'rydw i'n siwr bod Meinir Heulyn a'i theulu wedi cael sioc pan gyrhaeddodd 30 o blant ei thŷ! Wedyn cafodd y plant gyfle i drafod a dyfalu enwau arteffactau yn Y Ganolfan. Teithiodd dosbarthiadau 9 a 10 i Gomin Pontypridd gyda Mr. Davies i astudio'r Celtiaid. Gwisgodd y plant ddillad Celtaidd ac fe gawson nhw eu hwynebau wedi'u paentio gyda phatrymau Celtaidd glas, a bu dosbarth 11 yn astudio tŷ Oes Y Tuduriaid yn agos at yr ysgol.

Aeth dosbarthiadau 12 ac 13 i'r 'Mosg' yng Nghaerdydd i ddysgu am grefydd Y Mwslimiaid; daeth Mr. Davies i'r ysgol i siarad am yr ardal leol gyda dosbarthiadau 14 ac 15 a chafodd dosbarthiadau 13, 14 ac 15 gyfle i fynd i "Techniquest" yng Nghaerdydd i fynychu gweithdy gwyddonol Mrs. Diane Bartholomew. Diolch i Mrs. Bartholomew a Mr. Davies.

CHWARAEON
Llongyfarchiadau i Tomos Preece am gael ei ddewis yng ngharfan rygbi Ysgolion Pontypridd.

PENTRE IFAN
Aeth grwp o blant i aros ym Mhentre Ifan yn Sir Benfro. Diolch i Mrs. Meinir Morris am fynd gyda nhw.

GWASANAETH CYNHAEAF
Cawsom wasanaeth ardderchog unwaith eto eleni. 'Roedd y neuadd wedi'i haddurno'n hyfryd gyda blodau, ffrwythau a bara. Casglwyd £224 ar gyfer elusen y flwyddyn : elusen yr RSPCA sy'n gofalu am anifeiliaid.

Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

Gwasanaeth Diolchgarwch.
Pleser mawr oedd cyflwyno siec £1,660 i Sandy Grindlay, Tŷ Hafan yn ein gwasanaeth diolchgarwch ym mis Hydref. Cynhaliwyd canu a sillafu noddedig yn yr ysgol a diolch i'r plant a'r rhieni am eu cefnogaeth.

Llangrannog.
Cafwyd amser bendigedig unwaith eto yn Llangrannog ar ddechrau mis Hydref. Diolch i Enid, Carol, Ann, Kate a Janet am dreulio'r penwythnos gyda'r plant eleni.

Jambori.
Bu 56 0 blant yr Adran Iau yn mwynhau'r Jambori yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant. Cafwyd yr hwyl arferol yno.

Sioe Dyfeisio a Darganfod.
Cafwyd profiadau uniongyrchol gwerthfawr wrth wneud gweithgareddau Gwyddonol a Thechnolegol. Daeth Rhian Carbis ag adnoddau ardderchog i bob dosbarth wrth gyflwyno'r gweithgareddau.

Gala Nofio.
Bydd nifer o blant yn cymeryd rhan yn y gala nofio ym mis Tachwedd. Pob lwc iddynt.

Clybiau'r Ysgol.
Cynhelir amryw o glybiau yn yr ysgol yn ystod yr wythnos.
Nos Fawrth – Clwb yr Urdd gyda'r athrawon.
Nos Fercher – Athletau / pêl-rwyd, gyda Kate, Petra a Siân.
Nos Iau – Clwb rygbi gyda Mr Gary Lucas (ymgyrch rygbi, 'Buy as you View)

Cymdeithas rhieni ac Athrawon.
Dathliadau Calan Gaeaf – te parti i'r Babanod a disgo i'r Adran Iau.
Cwis – Tachwedd 20 o dan ofal Petra.

DROS 3000 YN JOIO YN JAMBORI YR URDD

Roedd dros 3000 o ddisbyblion yn joio yn Jamboris yr Urdd yng Nghanol Morgannwg yn ystod wythnos olaf haner tymor. Roedd y Jambori cyntaf yn cael ei gynnal yn Coliseum Aberdâr am 10 y bore, a cynigwyd awr a hanner o ganu hwyliog. Daeth dros 300 o ddisbyblion i'r Jambori yma.

Cynhaliwyd pump o Jamboris eraill yn ystod yr wythnos a oedd yn dilyn (21-24 Hydref) yng nghanolfannau hamdden Penybont, Ystrad, Llantrisant a Rhydycar. Roedd Martyn Geraint yn arwain y sesiynau canu gyda Myfyr Isaac, Geraint Cynan ac Aled Richards yn ei gynorthwyo.

Gobeithio fod pawb wedi mwynhau y profiad a'u bod am ddod nol blwyddyn nesa! Diolch yn fawr i Martin a'r band am ein diddannu yn ystod yr wythnos.

Traws Gwlad
Cynhaliwyd Traws Gwlad yr Urdd mewn sawl lleoliad yn ystod wythnos cyntaf mis Hydref. Fe wnaeth 20 o ysgolion gymryd rhan gyda 505 o ddisgyblion yn rhedeg. Rhedodd blwyddyn 4 a 5 bellter o 1200m, a rhedodd blwyddyn 6 bellter o 1500m. Rhoddwyd medalau i'r unigolion a ddaeth yn 1af, 2il a 3ydd ym mhob rhas, ac i'r timau a ddaeth yn 1af 2ial a trydydd ym mhob ras.
Llongyfarchiadau mawr i bawb a gymerodd rhan.

Ysgol Llantrisant yn y Jambori

Criw Castellau yn y Jambori

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol: Jayne Rees

Llongyfarchiadau
Priodwyd Matthew Edwards, Graigwen, mab Mike a Maralyn Edwards a Sharon Evans, Caerdydd ar Hydref y 3ydd. Roedd nith Matthew, Taome, merch Emma Jane yn forwyn briodas. Tad Sharon, gweinidog Ararat, Yr Eglwys Newydd priododd y ddau.Cynhaliwyd y wledd yn De Courcy's . Aethant i Bortiwgal ar eu mis mêl. Pob dymuniad da i chi.

Cyngerdd
Ar wahoddiad Cyngor Tref Pontypridd fydd Côr Godre'r Garth yn rhoi cyngerdd yn Amgueddfa Pontypridd ar Nos Wener 5ed Rhagfyr am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb i ddechrau dathlu'r Nadolig.

EISTEDDFOD CASNEWYDD A'R CYLCH 2004 - MEDAL GWYDDONIAETH A THECHNOLEG

Penderfynodd yr Is bwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg dorri tir newydd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd a'r Cylch drwy gyflwyno medal Gwyddoniaeth a Thechnoleg am y tro cyntaf. Mae Cymru yn fwy adnabyddus efallai fel gwlad y gân ond mae cyfraniad gwyddonol a thechnoleg unigolion a sefydliadau Cymreig yr un mor nodedig. Rhoddir y fedal i gydnabod ac anrhydeddu cyfraniad helaeth i'r defnydd o'r Gymraeg ym myd Gwyddoniaeth neu Dechnoleg a dyddiad cau y gystadleuaeth yw 31 Ionawr 2004.
Am fanylion pellach a ffurflen gais cysylltwch â Swyddfa'r Eisteddfod, 33 Stryd y Bont, Casnewydd, NP2O 4BH e bost de@eisteddfod.org.uk. Ffôn : 0845 120 9555.

TAITH I BATAGONIA

"Cynhelir cyfarfod am daith i Batagonia i bobl ifanc rhwng 17-21 mlwydd oed yn ystafell 'Student Development Unit' Undeb Myfyrwyr Caerdydd ar Nos Iau 27ain o Dachwedd am 6.30 y.h. Trefnir y daith fel rhan o Daith Antur Gwobr Dug Caeredin ac y mae ar gael i unrhywun sy'n siarad, neu'n dysgu Cymraeg ac sy'n fodlon rhoi o'u hamser i ymarfer ar gyfer y daith. Croeso cynnes i bawb."

Os oes unrhyw broblem gallwch gysylltu a mi ar 01874 623086.

YSGOL GYMRAEG TONYREFAIL

Y plant yn ymweld â'r Ganolfan Dydd yn Nhonyrefail

Gwobrwyo
Fe gofiwch i ni gynnal taith gerdded noddedig i godi arian i'r Ysgol ac i'r cyfanswm ddod dros £2000. Penderfynwyd rhoi gwobr i'r plentyn a gasglai y swm mwyaf o arian nawdd. Enillwyd hwn gan Tony Lee Price a gasglodd dros £200. Rhoddwyd y wobr sef cyfrifiadur gan Tonyrefail Computer Warehouse. Felly ar ddechrau'r tymor daeth ei bennaeth Mr David Davies i wasanaeth yn yr Ysgol i gyflwyno hwn i Tony Lee.

Nid Tony Lee yn unig a enillodd gyfrifiadur ond hefyd Lewis Thomas. Y tro hwn yn yr Echo oedd y gystadleuaeth. Enillodd ef gyfrifiadur i'r Ysgol a chan punt iddo ei hun. Felly llongyfarchiadau mawr i'r ddau.

Yr Urdd
Bu yr Ysgol hefyd yn hynod o brysur ym myd yr Urdd. Yn ychwanegol i'r aelwyd a gynhelir yn bythefnosol aeth trideg wyth o'r plant ynghyd â phedwar o'r athrawon sef Mr Rees, Dr Lloyd, Miss Downes a Miss Hughes i Langrannog am benwythnos. Cafwyd amser braf mewn awyrgylch Gymreig ac elwodd y plant yn fawr. Ar ôl dod yn ôl aeth tua dau ddeg pedwar ati i ymarfer ar gyfer y ras traws gwlad yr Urdd a gynhaliwyd ym Mhontypridd.

Chwaraeon
I aros ym myd chwaraeon aeth dau dîm o'r bechgyn i chwarae pêl-droed yn erbyn ysgol Saesneg Tonyrefail. Enillodd tîm A 1-0. Ond colli fu hanes tîm B 2-0. Felly aeth y ddwy ysgol adref yn hapus.

Tripiau
Bu'r dosbarthiadau hefyd ar lawer o dripiau addysgiadol. Yn gyntaf aeth dosbarth Dr Lloyd i Sain Ffagan i astudio y Tuduriaid. Yn y cyfamser aeth dosbarthiadau Miss Downes a Mrs Williams i'r amgueddfa yn Aberdar i astudio yr Ail Ryfel Byd ag Oes Victoria. Yn ychwanegol at hyn bu y ddau ddosbarth olaf hefyd mewn gweithdy yn Nhecniquest. Nid oedd pob un o'r tripiau yn ddaearyddol bell. Yn ystod y dyddiau diwethaf ymwelodd dosbarth Mrs Williams â chanolfan gymdeithasol Capel Farm yn Nhonyrefail a chawsant gyfle i wneud crochenwaith. Mewn gweithdy celf hefyd bu dosbarth Miss Downes pan ar gwrs pontio yn Llanhari a mwynhaodd pawb eu hunain.

Ymwelwyr
Nid yn unig yr aethom ni allan i ymweld ond daeth rhai i ymweld â ni hefyd. Cawsom gyngerdd dan nawdd y Ffatri Bop. Bu hyn yn llwyddiant mawr gan i bawb fwynhau ei hun yn fawr iawn. Roedd yn fodd i'r plant weld mai nid yn yr Ysgol yn unig y mae'r byd Cymraeg yn bodoli

Ar ei daith gerdded i godi arian i'r elusen Arch Noa ymwelodd Ian Botham â Thonyrefail ac aethom fel Ysgol allan i'w weld. Roedd yn naturiol felly i ni rhoi ein casgliad diolchgarwch i'r apêl yma. Daeth yn swm sylweddol o £172. Diolch i bawb a gyfranodd. Cynhaliwyd y gwasanaeth diolchgarwch yn neuadd yr Ysgol. Cafwyd eitemau cerddorol gan bob dosbarth yn eu tro. Roedd y darlleniadau yng ngofal Fflur Elin, Delun Jones, Jack Brooks a Hannah Dando. Yna aethpwyd â'r ffrwythau a'r llysiau i'r Ganolfan Dydd yn Nhonyrefail.

Dymunwn pob llwyddiant i Mrs V. Poach a dreuliodd ugain mlynedd yn gweithio yn ein Hysgol. Mae hi yn awr wedi dechrau ar ei swydd newydd fel ysgrifenyddes Ysgol Gynradd Penygawsi.

Y Ffatri Bop

MENTER IAITH - CYD

Cyfle gwych i ymarfer eich Cymraeg!

Tachwedd 13 Nos Iau
Cwis CYD Porthcawl

Tachwedd 15 Dydd Sadwrn
Diwrnod yn Sain Ffagan

Tachwedd 22 Dydd Sadwrn
Taith gerdded – ardal Penderyn gyda Gwyn Morgan yn arwain.

Rhagfyr 4 Nos Iau
Cyri a Sioe SYTH O'R NYTH yn Stiwt Cwmaman. Tocynnau £6.00. Sioe gwreiddiol – awr o hyd – am ddyddiau da y 60au a'r 70au. Wrth gwrs fydd gofyn i chi wisgo fel Alvine Stardust neu Abba – neu pwy bynnag oedd eich arwyr y dyddiau hynny!!!!!

Rhagfyr 9 Nos Fawrth
Cwis Cymraeg yng Nghlwb Peldroed , Hirwaun – Danny Grehan yw Cwisfeistr y Noson.

Am fanylion pellach cysylltwch â RHIAN JAMES 01685 877183 (dydd) neu 01685 871002 (nos)

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

COLLI CYFAILL

Daeth y newydd trist am farwolaeth yn 80oed ffrind annwyl i mi sef Emlyn Williams (EM) o Stryd Fawr Tonyrefail ar 11eg o Hydref ar ôl rhai misoedd o gystudd. Treuliodd flynyddoedd yn gweithio mewn siop cigydd yn y Ton, ag yn adnabyddus i bawb yn yr ardal am ei wen groesawgar bob amser.

Bu yn gysylltiedig â chorau Richard Williams ag yn aelod o gôr Boneddigion y Gân ers ei ddechrau ond roedd wedi rhoi'r gorau i ganu ers rhai blynyddoedd ond bu'n ffyddlon iddynt hyd y diwedd, yn helpu tu ôl i'r llenni.

Roedd Em yn aelod ffyddlon o bwyllgor lleol adeg paratoi tuag at Eisteddfod yr Urdd Taf Elái a gafodd ei chynnal yn Nhonyrefail yn 1991. Bu yn gymorth mawr i ni i godi arian tuag at yr Eisteddfod. Rhoes o'i orau bob amser er nad oedd yn rhugl yn y Gymraeg ond dysgodd dipyn ar y pwyllgor ond yn Gymro i'r carn, ag yn medru ar hiwmor iach i godi ysbryd pawb. Coffa da am Em.

Roedd ganddo fab Richard a diweddar ferch Helen, merch yng nghyfraith Vicky ag wyron Tom a Caryn, a brawd Gwilym. Bu'r angladd ar ddydd Gwener 17eg o Hydref, a'r gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Trefor Jones Salem Tonyrefail a chladdu ym mynwent y Tran.

COLLI HORACE

Ar fore Gwener y 3ydd o Hydref daeth y newydd trist am farwolaeth Horace Shugar yn 88 oed o Heol Prichard Tonyrefail, bu am ryw wythnos yn anymwybodol yn ysbyty Brenhinol Morgannwg a cholli'r frwydr a wnaeth, roedd wedi bod yn ddyn iach gydol ei oes, felly roedd yn sioc i bawb am ei ymadawiad sydyn.

Deuthum i'w adnabod ar ein hymweliadau dyddiol a lle bwyta yr henoed San Sior yn Nhonyrefail a gallech ddibynnu y byddai Horace yno bob amser yn gynnar.

Geidw ddau fab Brian a Colin a'u gwragedd ag wyron a wyresau. Bu'r angladd ar ddydd Llun y 13eg o Hydref, gwasanaeth yng nghapel Rosemount Tonyrefail ag yn amlosgfa Llangrallo.

CYNGERDD YN DEWI SANT.

Ar nos Sadwrn 25ain o Hydref cynhaliwyd cyngerdd yn Eglwys Dewi Sant Tonyrefail gan Gôr Orpheus Treforys dan arweiniad Alwyn Humphreys. Cafwyd rhaglen amrywiol gyda rhai emyn donau Cymraeg wedi eu trefni gan yr arweinydd ei hun.

Cyngerdd Côr Meibion Orffews Treforys yn Englwys Tonyrefail

Yr unawdydd gwadd oedd Beverley Humphreys a rhoes hithau raglen amrywiol a digon o hiwmor.

Rwyf wedi crybwyll o'r blaen am ddathlu canmlwyddiant yr Eglwys, roedd y noson yn rhan o'r gweithgareddau dathlu. Ar nos Lun 27ain bu Archesgob Cymru Y Gwir Barchedig Barri Morgan yn cynnal gwasanaeth arbennig i ddathlu y penblwydd pwysig hyn.

Dydi'r ficer Y Parchedig Stephen Ambani ddim wedi ail gydio yn ei waith eto, mae yn gwella yn ara deg, dymuniadau gorau iddo.

PROSIECT POTENTIA MENTER A BUSNES

Cefndir

Fy enw i yw Olive Corner ac dwi'n gweithio i Menter a Busnes fel Rheolwr Datblygu ar Brosiect Potentia. Pan wnes i ymuno â'r cwmni roeddem yn gweithio o Swyddfa Aberystwyth ac yn cynrychioli De Orllewin Cymru. Erbyn hyn rwyf wedi symud yn ôl i fyw ym Mhorthcawl ac yn gweithio o swyddfa Caerdydd ac yn awr yn cynrychioli ardaloedd Cymoedd y De. Cyn ymuno â Menter a Busnes, roeddwn yn bennaeth Busnes yn Ysgol Emlyn, Castell Newydd Emlyn a cyn hynny bum yn dysgu am gyfnod yn Ysgol y Cymer y Rhondda. Wnes i raddio mewn Busnes a Chyllid ac wedyn cwblhau MBA ym Mhrifysgol Morgannwg, Pontypridd.

Y Prosiect

Mae'r cynllun wedi ei anelu'n arbennig at helpu siaradwyr Cymraeg i feithrin ysbryd menter a datblygu'r agweddau a'r sgiliau i lwyddo drwy gyfrwng cefnogaeth ymarferol. Nod Potentia Menter a Busnes yw eich arwain trwy'r camau cyntaf i ddatblygu eich syniad busnes a'ch rhoi ar ben y ffordd.

Pa wasanaeth sydd ar gael trwy'r prosiect?

- Cefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg
- Cynnig syniadau a dulliau newydd i ddeffro ysbryd menter a chryfhau agweddau
- Creu defnyddiau cefnogi busnes a thynnu mentrwyr Cymraeg at ei gilydd i drafod a rhannu profiadau
- Cymorth gydag ymchwil marchnad
- Sesiynau creadigol i greu a datblygu syniadau
- Sesiynau gyda mentor
- Mynediad at gefnogaeth arbenigol

Cyrsiau Potentia

Mae Potentia Menter a Busnes yn darparu cyrsiau sy'n datblygu ysbryd menter a chryfhau agweddau unigolion ac sy'n gweithio ar reddf

Olive Corner

MENTER IAITH

ar waith yn Rhondda Cynon Taf

01443 226386

www.menteriaith.org

CHWILIO AM FYWYD GWELL

Mae llawer yn breuddwydio am fywyd gwell ac y mae partneriaeth wedi sefydlu o dan arweiniad Cyngor Rhondda Cynon Taf i sicrhau bywyd gwell i drigolion y sir. Bydd Cynllun Bywyd Gwell Rhondda Cynon Taf, sef y cynllun datblygu cymunedol newydd, wedi cael ei lansio ar ddechrau mis Tachwedd. Mae'r bartneriaeth yn rhywbeth i'w groesawu – y mae'n cynnwys 33% o'r Sector Gwirfoddol, 33% o'r Sector Preifat a 33% o'r Sector Cyhoeddus – ac y mae wedi gwneud llawer o waith ymgynghori â thrigolion Rhondda Cynon Taf. Roedd sawl cyfeiriad at y Gymraeg yn y fersiwn drafft a bu trafodaeth ar osod Cymunedau dwyieithog fel targed i'r cynllun cyfan. Gawn ni weld beth a ddaw ond mae'n argoeli yn dda ar hyn o bryd.

IAITH PAWB – BLE NESAF I'R MENTRAU?

Mae dogfen y cynulliad "Iaith Pawb" wedi derbyn croeso cyffredinol. Mae gen i barch at y gwleidyddion sydd wedi ei lunio ac wedi ei gyhoeddi ac rwyf yn gobeithio y bydd y gwleidyddion sy'n derbyn cyfrifoldeb am ei weithredu yn gwneud cystal. Mae sawl corff cyhoeddus wedi cael lle blaenllaw yn yr adroddiad hwn. Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru a Menter a Busnes i enwi rhai ac fe fydd yn ddiddorol i weld os ydy'r cyrff yma yn ymateb i'r her. Nid oes gan y cyrff mawr record arbennig wrth ystyried y Gymraeg. Dwi'n gwerthfawrogi mentergarwch ac arloesedd Menter a Busnes, ac rwyf wedi gweithio yn agos iawn gyda nhw ers blynyddoedd, ond y maen nhw yn llai o lawer na'r cyrff eraill ac yn tueddu at geisio gwneud mwy nac y mae eu hadnoddau cyfyngedig yn caniatáu. Gawn ni weld.

A dyna ni, baragraff cyfan am "Iaith Pawb" heb gyfeirio at fentrau iaith o gwbl. Digwyddodd rhywbeth, peidiwch â gofyn i mi beth, wrth ddatblygu'r adroddiad a wnaeth gwestiynu rôl mentrau iaith ac o ganlyniad y mae rôl mentrau iaith yn fach iawn o fewn y ddogfen sydd yn ddryswch braidd wrth feddwl faint rydym wedi bod ar flaen y gad yn ystod y degawd diwethaf.

Mae gan fentrau iaith Cymru, a Chwmni Mentrau Iaith Cymru Cyf., lawer i'w gynnig. Cysylltiadau cymunedol, cysylltiadau busnes, ymrwymiad ymgyrchwyr iaith, profiad datblygu cymunedol, cysylltiadau da gyda'r wasg, cefnogaeth eang o fewn y cyhoedd, y wasg a'r bobl. Gweithwyr brwdfrydig, mentrus ac arloesol. Gwirfoddolwyr gweithgar a dyfeisgar a llawer iawn mwy. Ymddengys bod eisiau i'r mentrau ddarparu gwasanaethau mewn cydweithrediad â neu ar gytundeb i'r cyrff mawr sefydlog. O dan arweiniad y gwleidyddion ac "Iaith Pawb" y mae'n bosib y bydd y cyrff mawr yn dod i werthfawrogi'r iaith a chroesawu cymorth y mentrau i weithredu eu cyfrifoldebau newydd. Gawn ni weld

BETH AM GYMRAEG I OEDOLION?

Bu llawer o ymchwil yn ddiweddar ynglyn â'r Maes Cymraeg i Oedolion. Datgelwyd mewn rhaglen deledu fod nifer fawr o ddysgwyr yn methu â chyrraedd pen y daith, sydd yn wir, ond ni ddatgelwyd bod y maes Cymraeg i Oedolion lawer iawn ar y blaen o'i gymharu â'r ffordd y mae pob iaith arall yn cael ei dysgu i oedolion ym Mhrydain. Ta waeth, nid da lle gellir gwell, ac y mae trafodaethau ar y gweill. Mae angen mwy o arian a staff ar CYD i ddarparu gwasanaeth cynorthwyol cyflawn ymhob man yng Nghymru a gwn fod staff CYD yn ceisio cyrraedd y nod yma. Mae tiwtor / trefnyddion Cymru gyfan yn galw am gorff canolog i ddatblygu'r maes ac am gynnydd sylweddol yn yr arian (100% yn fwy i fod yn fanwl gywir) sydd ar gael i drefnu gwersi.

Rwyf wedi dod yn ymwybodol o ddau bwynt sydd yn fy nrysu yn llwyr sef bod dysgu Saesneg yn derbyn cyfran mwy o arian nac yw dysgu Cymraeg er bod y ddwy iaith i fod yn gyfartal o dan Ddeddf Iaith 1993 – wel, ydyn nhw'n gyfartal ai beidio? Os ydyn nhw y mae eisiau iddynt gael eu hariannu ar yr un lefel bod cyrff addysgu ac ariannu Cymru yn gwrthod caniatâi datblygu / neu wrthod ariannu mwy o wersi Cymraeg ta waeth am faint o bobl sydd eisiau dysgu. Os ydy pobl eisiau dysgu Cymraeg pa synnwyr sydd i gyrff cyhoeddus ddweud nad ydynt yn cael gwneud hynny?

ETHOL PWYLLGOR NEWYDD I'R FENTER

Bydd rhaid ichi aros tan y rhifyn nesaf i gael gwybod pwy fydd ar bwyllgor gwaith y Fenter am y flwyddyn nesaf. Ymddengys y bydd Cadeirydd newydd, gan fod John Llewellyn Thomas wedi datgan ei fwriad i sefyll i lawr, felly croeso i'r Cadeirydd newydd a diolch i John am ei waith yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cofiwch fod modd i bobl ymuno â phwyllgor y fenter yn ystod y flwyddyn os ydych chi am wneud cyfraniad amlwg at ddyfodol yr iaith yn Rhondda Cynon Taf

Dosbarthwyd ffurflenni croesawu awgrymiadau, gan y cyhoedd, aelodau'r pwyllgorau neu staff neu unrhyw un mewn gwirionedd, yn ystod y cyfarfod blynyddol. Doedd dim disgwyl i dderbyn awgrymiadau yn y fan a'r lle. Doedd dim addewid y byddai'r awgrymiadau yn cael eu gweithredu. Serch hynny y mae gwir angen i bobl feddwl "y tu allan i'r bocs" gan weld ffyrdd newydd ymlaen i'r fenter ac i'r iaith Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r ffurflenni ar gael yn swyddfeydd y fenter ac, os hoffech chi gael un i gofrestri awgrym yn ffurfiol gyda'r fenter, y mae croeso i chi ffonio amdanynt ar 01443 226386.

BETH Y MAE'R FENTER YN EI WNEUD NAWR?

Wel ie, o'r diwedd newyddion ein menter ni! Boreau coffi newydd yn agor yn Maerdy a Llwynypia o dan nawdd Cymunedau Yn Gyntaf. Rhai Aberdâr, Aberpennar, Pontypridd, Penrhiwceibr, Treorci a Llantrisant yn mynd o nerth i nerth. Mae manylion llawn am y boreau coffi, digwyddiadau cymdeithasol gyda'r nos gan gynnwys gwersi canu gwerin gyda Heather Jones, teithiau cerdded a nosweithiau pryd o fwyd a drama ar gael gan Rhian James ar 01686 877183 does dim diwedd i waith y fenyw yna!

CLYBIAU CARCO YN DENU NIFEROEDD UWCH O HYD

Mae rhai o'r clybiau lleiaf poblogaidd yn dod â'u ffigyrau mwyaf erioed,16+ yn Ysgol Penyrenglyn, a rhai o'r clybiau mwyaf poblogaidd yn tyfu o hyd gyda hyd at 30 yn Castellau, Y Dolau, Ynyswen a Garth Olwg. Mae'r nosweithiau McDonalds, coginio, gemau a cherddoriaeth yn denu llawer o blant er mwyn yr hwyl ta waeth os ydy eu rhieni yn gweithio ai beidio. Y mae gwir galw am weithgareddau Cymraeg ac rydym yn falch iawn o ddiwallu'r angen. Caewyd Clwb Carco Heol y Celyn dros dro, wrth fod ein staff

Parhad >>

rheolaidd wedi symud ymlaen, ond rwyf yn deall y bydd wedi ail agor erbyn hyn ac yn gobeithio darparu gwasanaeth rheolaidd a fydd yn denu plant fel ac y mae'r clybiau hyn ymhob man arall. Diolch yn fawr i'r holl staff sy'n gweithio mor galed er mwyn darparu'r gwasanaeth. Mae manylion llawn ar gael gan Helen Davies ar 01685 877183 neu Hannah Bevan ar 01443 226386.

CYNLLUNIAU CHWARAE'R GWYLIAU YN CAEL MARCIAU LLAWN YN EU HAROLYGON BLYNYDDOL

Mawr fu'r ganmoliaeth o gynlluniau chwarae'r gwyliau wrth fod y CSIW wedi ymweld â nifer o gynlluniau yn ystod y gwyliau. Ta waeth am eu hymweliadau nhw roedd Helen Davies wedi gwneud gwerthusiad ffurfiol ac roeddwn i wedi galw i mewn i bob un cynllun yn ystod yr wythnos ac wedi fy siomi ar yr ochr orau wrth weld safon y gweithgareddau oedd ar gael. Rhaid nodi bod y niferoedd braidd yn isel mewn rhai cynlluniau – ni fyddwn yn debygol o barhau gyda chynllun Llynyforwyn yn ystod y flwyddyn nesaf – i raddau helaeth oherwydd y bu raid i ni godi prisiau i adlewyrchu gwir gostau gwasanaeth gofal llawn.

Mae arian ar gael i drigolion Rhondda Cynon Taf trwy gynllun Genesis a hefyd trwy Gredyd Treth Teuluoedd sy'n gweithio yn ogystal â rhai sefydliadau addysgiadol lleol i helpu gyda chostau gofal plant ac y mae'n bwysig iawn bod y rhieni sydd agen y cymorth yma yn cael gwybod ei fod ar gael iddynt.

CWRS BUSNES, GORWELION, CWLWM BUSNES

Diolch i Glesni Roberts mae tipyn o waith yn mynd ymlaen gyda'r prosiectau hyn. Dymuniadau gorau i Julie Williams, oedd wedi gwneud gwaith da iawn wrth ddatblygu'r maes, sydd nawr wedi gadael y fenter i ofalu am ei gwr sydd wedi bod yn sâl iawn ers rhai wythnosau

OFFER CYFIEITHU AR GAEL

Mae offer cyfieithu ar y pryd ar gael i'w logi gan y fenter ar bris rhesymol iawn

GWASANAETHAU IEUENCTID CIC YN MYND O NERTH I NERTH

Mae'r clybiau Excel yn gwneud yn arbennig o dda ac rydym nawr yn gweld pobl ifanc yn ymuno ymhob math o weithgareddau gyda'r Fenter diolch i waith Amy a Vicki o Ganolfan Yr Urdd yn Aberdâr – manylion llawn ar gael ar 01685 882299.

STEFFAN WEBB
PRIF WEITHREDWR
MENTER IAITH

Cyfweliad â Matthew Rhys

Fel rhan o'u gwaith ar gyfer gorsaf radio GTFM, cafodd dau ddisgybl o Flwyddyn 11, Matthew Breese a Bethan Keogh, y cyfle euraidd o gyfweld ag un o sêr actio mwyaf Cymru. Neb yn llai na'r hyfryd ac aml-dalentog Matthew Rhys.



Matthew Rhys gyda Nicola Williams, Bethan Keogh a Matthew Breese

Mae gan y ddau raglen wythnosol ar GTFM 106.9 o'r enw 'Amser Arddegau'. Bob wythnos rhwng 6 a 7 o'r gloch maent yn darlledu o Brifysgol Morgannwg. Fel arfer maent yn chwarae cryno-ddisgiau di-ri, yn cyhoeddi cyhoeddiadau a newyddion o'r ysgol ac weithiau maent yn cael y cyfle i gyfweld â gwahanol unigolion ar y gyfer y sioe.

Ar ôl wythnosau o drefnu fe aeth y ddau lawr i'r Theatr Newydd, Caerdydd i gyfweld â Matthew Rhys. "Roeddwn yn gyffrous a nerfus hefyd cyn y cyfweliad", cyfaddefodd Bethan, "ond unwaith i ni gwrdd â Matthew, roedd e mor gwrtais a mor gyfeillgar, nes i anghofio am y nerfau'n gyfangwbl!" Ychwanegodd Matthew Breese, "Doedd dim amser gen i i boeni am y ffaith ein bod ni'n cwrdd â rhywun mor enwog, oherwydd fy nghyfrifoldeb i oedd i sicrhau bod y lefelau'n gywir ar y recordydd cryno-ddisg".

Roedd Matthew Rhys yng Nghaerdydd gan mai fe a Nia Roberts oedd yn chwarae'r prif-rannau yn Under Milkwood ('Dan-y-Wenallt'). Dywedodd ei fod wrth ei fodd i fod yn ôl yng Nghymru yn gweithio, ac y daw yn ôl bob cyfle a ddaw iddo. "Mae'n wych i ddod nôl i Gymru i weithio, yn arbennig i Gaerdydd. Mae'r ffaith fy mod wedi cael fy newis i fod yn rhan o'r prosiect hwn ar gyfer dathlu hanner can mlwyddiant marwolaeth Dylan Thomas yn fraint ac yn amrhisiadwy".

Mae e wedi bod yn brysur yn actio ar lwyfan ond y mae hefyd wedi cael y cyfle i weithio ym myd y ffilmiau gyda actor enwog arall o Gymru. "Rych chi'n gallu dysgu llawer wrth weithio gyda Anthony Hopkins. Mae e'n berffeithydd ond, ar y llaw arall, mae e'n deip o ddyn sy'n hoffi i chi ei alw'n 'Tony'!" Ychwanegodd "Roedd yn anghredadwy cael y cyfle i weithio gyda fe".

Gofynnodd y disgyblion beth oedd ar y gweill i Matthew ar ôl gorffen y prosiect hwn. "Mae gen i ffilm sy'n dod mas cyn hir o'r enw 'Fakers' ac ym mis Chwefror fe fyddai'n chwarae Romeo yng nghynhyrchiad nesaf 'Romeo a Juliet' yr RSC yn Stratford".

Mae'n amlwg bod nifer o gynhyrchwyr theatr, ffilm a theledu Prydain ac America yn gallu gwerhfawrogi talentau amrywiol yr actor ifanc hwn o Gaerdydd, a gobeithwn yn fawr ei weld yn actio nôl yng Nghymru yn y dyfodol agos.

Fe fydd cyfweliad Matthew Rhys yn cael ei ddarlledu'n rhannol, ac yn wythnosol ar GTFM 106.9, bob nos Fawrth rhwng 6 a 7. Os hoffech fwy o wybodaeth am Romeo a Juliet yn Stratford, cysylltwch â'r RSC ar 01789 403403.

CWRS BUSNES
gyda
GUTO BEBB
yn TEEP , Trefforest
6.00—8.00p.m.

Tachwedd 3- Cyflwyniad i Gynllun Busnes
Tachwedd 10 - Trethi / VAT
Tachwedd 17 - Cyflogi Staff
Tachwedd 24 - Cyllid, Grantiau a Benthyciadau
Rhagfyr 1 - Marchnata a Hysbysebu

I gofrestru cysylltwch â Glesni Roberts ar 01685 877183

CROESAIR

Llongyfarchiadau i Mrs Gwynfa Edwards, 23 Castan Road, Pontyclun a enillodd Croesair mis Hydref

Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau.

Atebion i: Croesair Col
34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn,
Pontyclun. CF72 8QX
erbyn 19 Tachwedd 2003

Ar Draws

1. Cael yn anodd i ran o'r wyneb mewn cyfnod gwael (6,5)
8. Es â nodyn i fenthyg cadach (7)
9. Tynnwch ddarn o'r cortyn. Dyna'r ticed (5)
11. Â cant i balu wrth dyngu a rhegi (5)
12. Ar y fferm yn ôl yr arfer (7)
14. Derbyn newid mewn rhan a fu (5)
15. Cedwir gwisg o ledr yn y ddesg i Dai (5)
18. Ewch ychydig ar y tro i ddal gro (7)
19. Cadw hon i gael stwr (5)
21. Y don y'th drefnodd i'r cartrefi (5)
23. Yr amodau yw cael aur ar gyfer y teledu bach yn Lloegr (7)
24. Sut i fynd ar flaenau traed a'r sôn lleiaf (3,3,2,3)

I Lawr

2. Nyni aeth â bin heb ddibynnu ar neb na dim (11)
3. Gyda'n gilydd, awn â siâp i ddeg i ddilyn arferiad (9)
4. Mor swynol yw si y rhain yn yr anthem genedlaethol (6)
5. Y bryn sydd yn Llanfair y Muallt (3)
6 Symud y cyrff i ddod o hyd i'r offerynau Bwyta (4)
7 Dewch i'r fan i gael sarhad (5)
10. Cyfri eilio ni'n gamgymeriad (11)
13. Gwlad ar gyfandir neu wlad a chyfandir? (9)
16. Dechrau tyfu yn nghanol rhedeg i nôl y plant (5)
17. Pum cant o dan? Paid â sôn! Nid yw'n swnllyd (6)
20. Rhibidirês o eiriau annoeth diystyr? Cewch y gwir yn Saesneg (4)
22. Wedi diflasu yn Lloegr i ddod yn ôl am y pentwr (3)

Atebion Croesair Mis Hydref

A	C	E	N		D		C		S	O	B	R
	L		E	L	I	FF	A	N	T		R	
C	O	LL	I		D		S		O	R	I	G
	N		D	E	A	LL	G	A	R		F	
A	C	E	R		R		E		I	S	O	D
B		G		P	O	E	N	I		Y		I
E	L	I	N	O		I		O	F	N	O	G
R		N		S	A	N	C	T		N		O
U	CH	O	D		D		E		D	U	O	N
	W		A	D	L	O	N	N	I		E	
C	A	S	T		A		E		C	A	R	U
	E		O	R	I	A	D	U	R		N	
C	R	Y	D		S		L		A	S	I	O

Cornel y Plant

Beth yw'r 5 gwahaniaeth rhwng y ddau lun?





Tynnwch linell rhwng y dotiau i weld.